# Busnes Cymdeithasol Cymru

# Mapio'r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2022

Ionawr 2023

wavehill
Social and economic research


## Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

- **Swyddfa Cymru:** 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- **Swyddfa Gorllewin Lloegr:** 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- **Swyddfa Gogledd Lloegr:** Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- **Swyddfa Llundain:** 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, London, N4 3EY

## Manylion cyswllt:

**Ffôn:** 0330 1228658
**E-bost:** wavehill@wavehill.com
**Twitter:** @wavehilltweets


## Mwy o wybodaeth:

www.wavehill.com
https://twitter.com/wavehilltweets

© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r adroddiad hwn yn destun hawlfraint. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.


## Awduron yr adroddiad:

Ioan Teifi, Megan Clark, Oliver Allies, Paula Gallagher
Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiad hwn at Ioan Teifi, yn y lle cyntaf
ioan.teifi@wavehill.com


Dyddiad y ddogfen: 01/03/2023
Fersiwn: 1

## Manylion y cleient:

Jude Cook
Cynghorydd Datblygu'r Farchnad, Busnes Cymdeithasol Cymru
jude.cook@cwmpas.coop

**Busnes Cymdeithasol Cymru**
**Social Business Wales**

Delivered by:

cwmpas

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r busnesau a'r unigolion niferus a roddodd o'u hamser i helpu â'r gwerthusiad, yr oedd pob un ohonynt yn bwysig o ran llunio'r adroddiad hwn. Ni fyddai'r gwerthusiad hwn yn bosibl heb yr holl gyfraniadau hyn.


# Rhestr byrfoddau

| | |
|---|---|
| Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau | IDBR |
| Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | ONS |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | DLlCDC |
| Adroddiad Arolwg Cyflwr Menter Gymdeithasol 2021 | SEUK21 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | BCC |
| Cwmni Buddiannau Cymunedol | CIC |

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | **Cyflwyniad** | **7** |
| | 1.1 Diffiniad | 8 |
| 02 | **Methodoleg a chyd-destun** | **9** |
| | 2.1 Casglu a dilysu data | 10 |
| | 2.2 Arolwg | 11 |
| | 2.3 Dadansoddiad a chyfyngiadau | 13 |
| | 2.4 Cyd-destun polisi | 14 |
| 03 | **Cyfansoddiad y sector** | **16** |
| | 3.1 Cwmpas daearyddol a busnesau newydd | 17 |
| | 3.2 Math o sefydliad ac arweinyddiaeth | 24 |
| | 3.3 Sectorau gweithredol | 26 |
| | 3.4 Maint busnesau ac amcangyfrifon y sector | 28 |
| 04 | **Gwerth ac effeithiau cymdeithasol** | **33** |
| | 4.1 Amcanion cymdeithasol | 34 |
| | 4.2 Cyrchfannau elw | 37 |
| | 4.3 Arferion busnes | 38 |
| | 4.4 Gweithredu ar sero net | 41 |
| 05 | **Arferion busnes a pherfformiad masnachu** | **47** |
| | 5.1 Twf busnesau | 48 |
| | 5.2 Patrymau masnachu | 50 |
| | 5.3 Galluoedd busnesau | 53 |
| 06 | **Heriau, anghenion cymorth a llwybrau twf** | **56** |
| | 6.1 Rhwystrau rhag tyfu | 57 |
| | 6.2 Bylchau o ran sgiliau ac anghenion cymorth | 60 |
| | 6.3 Llwybrau twf | 62 |
| 07 | **Crynodeb o'r canfyddiadau** | **63** |
| | 7.1 Cyflwr y sector | 64 |
| | 7.2 Perfformiad masnachu a rhwystrau rhag tyfu | 64 |
| | 7.3 Cyflawni newid cymdeithasol | 65 |
| 08 | **Atodiad 1** | **66** |
| | Grantiau a gynigiwyd yn ystod y pandemig | 67 |
| 09 | **Atodiad 2** | **68** |
| | Diffiniad o Fusnes a Gynorthwyir | 69 |

# Tabl o'r tablau

**Tabl 1.1:** Diffiniadau sefydliadau 8

**Tabl 3.1:** Newidiadau mewn trosiant o 2020 i 2022 30

**Tabl 3.2:** Newidiadau mewn trosiant o 2020 i 2022 o sampl gyfatebol 3 blynedd 31

**Tabl 4.1:** Newidiadau i ddarpariaeth Gymraeg 2020 i 2022 40

# Tabl o'r ffigurau

**Ffigur 1.1:** Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg bob mis 12

**Ffigur 3.1:** Dosbarthiad daearyddol busnesau cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru 17

**Ffigur 3.2:** Dosbarthiad daearyddol busnesau cymdeithasol o gymharu â'r holl fusnesau 18

**Ffigur 3.3:** Busnesau cymdeithasol fel cyfran o gyfanswm y stoc fusnes 19

**Ffigur 3.4:** Cyfran y busnesau cymdeithasol o gyfanswm y stoc fusnes yn 2020 a 2022 20

**Ffigur3.5:** Cyfran y busnesau cymdeithasol o gyfanswm y stoc fusnes fesul rhanbarth, 2018, 2020 a 2022 21

**Ffigur 3.6:** Oedran busnesau adeg yr arolwg 22

**Ffigur 3.7:** Cyfran y busnesau cymdeithasol a'r busnesau cymdeithasol newydd a arolygwyd fesul awdurdod lleol 23

**Ffigur 3.8:** Mathau o fusnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2022 24

**Ffigur 3.9:** Statws cyfreithiol busnesau cymdeithasol yn 2018, 2020 a 2022 (sampl gyflawn) 25

**Ffigur 3.10:** Cyfran gyfartalog y grwpiau demograffig ymhlith uwch dimau arweinyddiaeth busnesau cymdeithasol 2022 26

**Ffigur 3.11:** Sectorau gweithredol allweddol busnesau cymdeithasol yn 2020 a 2022 27

**Ffigur 3.12:** Maint busnesau cymdeithasol o gymharu â chyfanswm y stoc fusnes 28

**Ffigur 3.13:** Bandiau cyflogaeth busnesau cymeithasol yn 2018, 2020 a 2022 (sampl gyflawn) 29

**Ffigur 3.14:** Bandiau trosiant a grybwyllwyd yn 2020 a 2022 30

**Ffigur 3.15:** Newidiadau yng % yr incwm a grewyd trwy fasnachu 2018-2022 31

**Ffigur 4.1:** Prif amcanion cymdeithasol fel y'i nodwyd gan sefydliadau (sampl gyfan) 35

**Ffigur 4.2:** Ymwybyddiaeth busnesau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) 2018, 2020 a 2022 36

**Ffigur 4.3:** Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth am eich effaith gymdeithasol/amgylcheddol? 36

**Ffigur 4.4:** Beth ydych chi'n ei wneud ag unrhyw warged/elw rydych chi'n ei wneud? 2018, 2020 a 2022 37

**Ffigur 4.5:** Nifer y gwirfoddolwyr yn 2020 a 2022 39

**Ffigur 4.6:** I ba raddau y mae busnesau'n cynnig eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o 2020 i 2022 40

**Ffigur 4.7:** Faint o flaenoriaeth yw lliniaru'r newid yn yr hinsawdd i'ch busnes? 41

**Ffigur 4.8:** A ydych chi wedi ymrwymo'n llawn neu'n ystyried dod yn garbon niwtral neu'n sero net? 42

**Ffigur 4.9:** A ydych wedi ystyried neu wedi cyflwyno unrhyw rai o'r mesurau canlynol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd? 43

**Ffigur 4.10:** Rydych chi'n dweud eich bod wedi ystyried yr opsiynau hyn ond heb eu cyflwyno. Beth fyddai'n eich helpu i'w cyflwyno? 46

**Ffigur 5.1:** A allech chi gadarnhau trosiant eich sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (Sampl y Panel) 48

**Ffigur 5.2:** Dangosyddion datblygu busnes yn ystod y 12 mis diwethaf 49

**Ffigur 5.3:** Wrth feddwl am y 2-3 blynedd nesaf, ydych chi'n credu y bydd eich trosiant ac elw yn cynyddu, yn gostwng neu'n aros fel y mae? 50

**Ffigur 5.4:** Beth yw prif ffynonellau incwm eich sefydliad? 51

**Ffigur 5.5:** Tua faint o gyfanswm incwm eich sefydliad sy'n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau masnachu? (Sampl y Panel) 52

**Ffigur 5.6:** Ar gyfer beth oeddech chi'n defnyddio'r cyllid neu'r cyfalaf hwn? 53

**Ffigur 5.7:** Galluoedd hunangofnodedig mewn sgiliau busnes perthnasol (Sgôr gyfartalog lle mae 5 yn gryf iawn ac 1 yn wael iawn) 2018, 2020 a 2022 54

**Ffigur 5.8:** Sgôr gallu gyfartalog (lle mae 5 yn gryf iawn) a'r ganran a ymatebodd naill ai 'cryf' neu 'cryf iawn' 55

**Ffigur 6.1:** Beth yw'r pedwar rhwystr mwyaf sylweddol rhag cynaliadwyedd a/neu dwf eich sefydliad ar hyn o bryd? 58

**Ffigur 6.2:** Pam ydych chi'n datgan bod manteisio ar gyllid yn her i'ch busnes? 59

**Ffigur 6.3:** Pa gymorth fyddai orau o ran mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynaliadwyedd neu dwf a nodwyd gennych? 60

**Ffigur 6.4:** Sut mae'ch sefydliad yn bwriadu cyflawni'r cynnydd hwn? 62




Adran 01

# Cyflwyniad

01

»

# 01 Cyflwyniad

Comisiynwyd Wavehill gan Busnes Cymdeithasol Cymru (BCC) i ymgymryd â'r ymarfer mapio eilflwydd diweddaraf o'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn ailadrodd ymarferion tebyg a gynhaliwyd bob dwy flynedd er 2014.

Mae diben deublyg i'r ymarfer hwn: deall maint a graddfa'r sector, a chynnal archwiliad iechyd o'r sector (gan gynnwys amlygu rhai o'r heriau a'r cyfleoedd a wynebwyd). Yn gysylltiedig â'r diwethaf, mae'r ymarfer hefyd yn gyfle i ddeall sut mae'r pandemig COVID 19 wedi effeithio ar y sector.

## 1.1 Diffiniad

Term ymbarél yw busnes cymdeithasol sy'n disgrifio sefydliadau sy'n gweithredu yn yr economi gymdeithasol, a all gynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau dan berchenogaeth gweithwyr.  Mae disgrifiad manwl o ystyr bob un o'r termau hyn i'w weld yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1.1: Diffiniadau sefydliadau**

| Math o sefydliad | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cwmni Cydfuddiannol/ Cydweithredol** | Mae cwmni cydfuddiannol/cydweithredol yn sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol, ac sy'n cael ei redeg er eu lles nhw. |
| **Menter Gymdeithasol** | Mae menter gymdeithasol yn fusnes sydd ag amcanion cymdeithasol, yn bennaf, ac y caiff ei wargedion eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach na chael ei ysgogi gan yr angen i wneud yr elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr a pherchnogion.<br><br>**Mae ganddi dair prif nodwedd:**<br>• Mae ganddi ddiben cymdeithasol<br>• Mae'n gweithredu gan ddefnyddio model busnes masnachol<br>• Mae ganddi ffurf gyfreithiol sy'n briodol i statws 'nid-er-elw personol' a pherchenogaeth gymdeithasol. |
| **Busnesau dan berchnogaeth gweithwyr** | Mae'r Gymdeithas Perchnogaeth Gweithwyr yn disgrifio busnesau sydd dan berchnogaeth gweithwyr, fel busnesau y mae gweithwyr yn berchen yn llwyr arnynt neu'n berchen arnynt i raddau helaeth.<br><br>**Gall perchenogaeth gweithwyr fod ar un o dair ffurf:**<br>• Perchenogaeth gweithwyr uniongyrchol – gan ddefnyddio un neu fwy o gynlluniau cyfranddaliadau sy'n rhoi manteision treth, bydd gweithwyr yn cael eu cofrestru fel cyfranddalwyr unigol sy'n berchen ar fwyafrif y cyfranddaliadau yn eu busnes<br>• Perchenogaeth gweithwyr anuniongyrchol – mae cyfranddaliadau'n cael eu cadw ar y cyd ar ran cyflogeion, drwy ymddiriedolaeth cyflogeion fel arfer<br>• Cyfuniad o berchenogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol – cyfuniad o berchenogaeth unigol a chydberchnogaeth. |



# Adran 02
# **Methodoleg a chyd-destun**

02

# 02 Methodoleg a chyd-destun

Roedd yr astudiaeth yn dilyn dull lled debyg i'r un a fabwysiadwyd mewn ymarferion blaenorol, a gellir ei chrynhoi mewn tri phecyn gwaith: casglu data, gwaith arolwg a dadansoddi. Yn ogystal, gwnaed rhai addasiadau i'r dull i gydnabod yr angen cynyddol i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a pholisïau sero net. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

## 2.1 Casglu a dilysu data

Roedd y cam cyntaf yn cynnwys coladu a dad-ddyblygu rhestrau o fusnesau cymdeithasol yng Nghymru a oedd yn cael eu cadw gan bartneriaid rhanddeiliaid a chofrestrau cyhoeddus amrywiol. Mae hyn yn dilyn yr un dull a ddefnyddiwyd mewn ymarferion blaenorol.

Roedd y sefydliadau a oedd yn rhannu cysylltiadau a'r rhestrau a adolygwyd yn lled gyson â'r rhai mewn ymarferion blaenorol. Amlygwyd y rhan fwyaf o'r 'cysylltiadau newydd' (h.y. na amlygwyd mewn ymarferion blaenorol) ar y gofrestr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CIC) a rhestr cleientiaid gweithredol Busnes Cymdeithasol Cymru (BCC). Croesgyfeiriwyd cyfanswm o 6 o restrau yn erbyn y 2,309 o fusnesau a amlygwyd yn 2018, gan greu 3,054 o gysylltiadau unigryw.

Yn 2020, rhannodd Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg (GVS) nifer fawr o gysylltiadau newydd, y cadwyd 174 ohonynt ar restr y busnesau i gysylltu â nhw. Mae cadw'r cysylltiadau hyn ar gyfer y flwyddyn hon yn parhau i effeithio ar ddosbarthiad daearyddol y busnesau cymdeithasol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Dyfarnwyd cyllid Ewropeaidd i Cwmpas i ddarparu cymorth i fusnesau newydd yn 2019. Trwy'r adnoddau ychwanegol hyn, bu Cwmpas yn fwy gweithredol o ran darparu cymorth cyn dechrau a chymorth dechrau busnes i fusnesau cymdeithasol. Mae'n debygol bod hyn wedi newid proffil maint ac oedran y busnesau cymdeithasol a gefnogwyd a byddai'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghronfa ddata'r cysylltiadau a gafwyd gan Cwmpas. Cafwyd ychydig dros chwarter o'r cysylltiadau unigryw (815, 27 y cant) oddi ar restr a ddarparwyd gan Cwmpas o 1,468 o fusnesau a oedd wedi ymgysylltu ag ef yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf am gymorth dechrau busnes. Mae'n bwysig nodi y gallai'r is-sampl hon fod wedi effeithio ar ddosbarthiad oedran y busnesau cymdeithasol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, lle y gallai nifer fawr o egin fusnesau ogwyddo'r sampl tuag at fusnesau iau. Felly, cydnabyddir bod cyfran yr egin fusnesau yn yr adroddiad hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy uchel.

Er mai prif ddiben y rhestr gysylltiadau oedd creu awgrymiadau ar gyfer ymatebion i'r arolwg, rhoddodd gyfle pellach i'r ymchwilwyr ddilysu statws y busnesau hyn. Yn ystod galwadau'r Tîm Ymchwil, amlygwyd bod 122 o fusnesau pellach (pedwar y cant) wedi rhoi'r gorau i fasnachu, a bod 93 ohonynt (tri y cant) naill ai'n ddyblygiadau neu ddim yn ystyried eu hunain yn fusnesau cymdeithasol. Arweiniodd hyn at restr derfynol o 2,828 o fusnesau cymdeithasol ar gyfer ymarfer yr arolwg a'n hamcangyfrif o faint y sector cyfredol.

## 2.2 Arolwg

Roedd y prif newid arall i'r dull yn 2022 yn ymwneud â'r arolwg ei hun. Gwnaed sawl newid i'r cwestiynau a ofynnwyd i'r ymatebwyr, gan gynnwys dileu'r adran a ychwanegwyd yn 2020 a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar effaith COVID-19 a sut roedd y busnes wedi addasu er mwyn ymateb iddo. Cynhwyswyd cwestiynau ychwanegol i adlewyrchu'r rhwystrau ychwanegol y gallai busnesau eu hwynebu yn 2022, fel cost gynyddol nwy a thrydan cyfanwerthol ac ymateb busnesau i bolisïau sero net yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud ag ymrwymiadau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Ar yr un pryd, cadwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau a'r ymatebion o ymarfer 2018, sy'n galluogi cymharu canfyddiadau rhwng camau'r arolwg.

Yn yr un modd ag ymarferion blaenorol, rhannwyd yr arolwg yn ddwy ran: roedd Rhan 1 yn arolwg byrrach, 10-15 munud a oedd yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am y busnesau (e.e. sector, cyflogaeth, daearyddiaeth, trosiant, statws cyfreithiol ac ati), tra'r oedd Rhan 2 yn arolwg hwy â ffocws mwy ansoddol (30-40 munud ar gyfartaledd), a oedd yn cynnwys cwestiynau am arferion y gweithlu, gwerth cymdeithasol, gweithredu ar sero net, perfformiad, cyflawniadau, a heriau.

Llenwodd cyfanswm o 336 o fusnesau Ran 1 yr arolwg (cyfradd ymateb o 11 y cant). Yn ogystal, llenwodd 249 o fusnesau Ran 2, a oedd yn cynrychioli cyfradd ymateb o wyth y cant.

Gwahoddwyd busnesau i lenwi Rhan 1 ar-lein hefyd, a gyflwynwyd am y tro cyntaf ar gyfer arolwg 2020. Roedd hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn 2018, pan gasglwyd yr holl ymatebion drwy gyfweliadau ffôn gan y Tîm Ymchwil. Gwnaed y penderfyniad er mwyn ymateb i'r pandemig a'r ffaith bod nifer gynyddol o bobl a busnesau'n gweithio gartref. Cadwyd y fethodoleg hon yn 2022 er mwyn gallu cymharu â 2020, i adlewyrchu cyflymiad yn y defnydd o dechnoleg ddigidol ac ymgysylltu o bell ac i wella cyfraddau ymateb. Roedd y dull hwn yn effeithiol, gyda 54 o'r ymatebwyr (16 y cant) yn llenwi Rhan 1 ar-lein, tra yr ymgysylltwyd â'r holl ymatebwyr eraill drwy'r Tîm Ymchwil. Roedd y gyfradd ymateb ar-lein yn debyg i ffigur 2020, sef 17 y cant. Casglwyd yr holl ymatebion i Ran 2 drwy gyfweliadau ffôn.

### 2.2.1 Dosbarthu'r arolwg yn ystod COVID-19 a'r adferiad ôl-COVID


Mae cyd-destun y pandemig COVID-19 a'r cynnwrf economaidd-gymdeithasol ers hynny yn bwysig iawn i'r ymchwil hon. Mae'r astudiaeth hon yn ymwneud yn rhannol â chynnal archwiliad iechyd o'r sector, a bydd y sefyllfa economaidd-gymdeithasol ehangach ers y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar hynny.

Ataliodd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol a lleol amrywiol drwy gydol 2020 ac yn gynnar yn 2021 weithrediadau llawer o fusnesau'n gyfan gwbl, ac effeithio'n sylweddol ar rai eraill, tra'r oedd nifer o'r cyfyngiadau ar waith o hyd rhwng y cyfnodau clo. Mae hefyd yn bwysig nodi y bu pecyn o gymorth digynsail gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill a oedd â'r bwriad o gefnogi busnesau ar hyd y pandemig ac sydd wedi dod i ben erbyn hyn. Mae rhestr o'r cronfeydd hyn i'w gweld yn Atodiad 1.




Arweiniodd ailagor economïau ledled y byd ar ôl pandemig COVID-19 at brisiau ynni uwch a dechreuodd pwysau chwyddiant ddod i'r amlwg. Cyflymodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin ym mis Chwefror 2022 y cynnydd mewn prisiau ynni byd-eang ac achosi aflonyddwch sylweddol i gadwyni cyflenwi, a arweiniodd at gynnydd mewn chwyddiant yn y DU ac economïau byd-eang yn ystod 2022. Mae chwyddiant mewn costau yn debygol o fod wedi rhoi llawer o fusnesau cymdeithasol dan bwysau sylweddol, a allai fod wedi cyfyngu ar eu gallu i ymateb i'r arolwg neu ddylanwadu ar sut y gwnaethant ymateb i gwestiynau penodol. Fel y cyfryw, dylid ystyried yr holl gymariaethau o ddata yn 2020 a 2022 ochr yn ochr â'r cyd-destun hwn.

**Figure 2.1: Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg bob mis**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill (n=336)

## 2.3 Dadansoddiad a chyfyngiadau

Dadansoddwyd holl ddata'r arolwg, a chaiff y prif ganfyddiadau eu cyflwyno yng ngweddill yr adroddiad hwn. Lle bynnag y bod modd, mae'r adroddiad yn cyflwyno dadansoddiad o'r tueddiadau i ddangos sut mae'r sector wedi newid ers i'r ymarferion hyn gael eu cynnal.

Caiff dau ddull eu mabwysiadu wrth gynnal y dadansoddiad hwn: cymharu'r samplau cyffredinol yn 2022 ag ymarferion blaenorol, a dull panel drwy gymharu sampl gyfatebol (h.y. yr un busnesau yn union a gwblhaodd yr arolwg yn 2018, 2020 a 2022). Defnyddiodd y dull panel 73 o fusnesau a oedd wedi cwblhau'r arolwg bob blwyddyn. Yn ogystal, cynhaliwyd dadansoddiad ar wahân i fusnesau a ymatebodd yn 2020 a 2022 o fusnesau a oedd wedi cwblhau'r arolwg yn y ddau ymarfer diwethaf, ond nid yn 2018.

Mae nifer o gafeatau i'w hamlygu ar gyfer y dadansoddiad o dueddiadau yng nghyd-destun pandemig COVID-19 yn 2020, a all effeithio ar gymariaethau rhwng data 2022 a 2020 lle nad yw busnesau wedi'u cyfateb drwy'r dadansoddiad o'r arolwg panel.

Cafodd y cyfyngiadau a osodwyd yn ystod y pandemig effaith glir ar y sampl a gafwyd o'r gwaith maes 2020, o ystyried yr effaith anghymesur ar wahanol sectorau o'r economi. O ganlyniad, roedd y sectorau a oedd yn fwy anweithredol yn ystod y pandemig oherwydd y cyfyngiadau hyn, ac a allai fod â mwy o amser rhydd (e.e. y celfyddydau, hamdden, grwpiau cymunedol ac ati) yn cynrychioli cyfran uwch na'r cyfartaledd o'r sampl o gymharu â blynyddoedd blaenorol, tra yr ymddengys bod sectorau a fu'n fwy gweithredol yn ystod y pandemig (e.e. iechyd a gofal cymdeithasol) wedi'u tangynrychioli. Mae'n debygol bod hyn wedi effeithio ar faint y busnesau a gyrhaeddwyd yn 2020, gan fod busnesau mewn sectorau a dangynrychiolwyd (fel iechyd a gofal) a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLau) yn dueddol o fod yn sefydliadau llawer mwy, tra mae sefydliadau mewn sectorau a orgynrychiolwyd yn llai. Yn 2022, roedd tueddiadau sector yr arolwg yn agosach at y rhai a grybwyllwyd yn 2018.

Ar ben hynny, gallai parhau i ddefnyddio'r cysylltiadau a ddarparwyd gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg o'n set ddata yn yr ymarfer mapio blaenorol fod wedi effeithio ar y sampl a'r amcangyfrifon o ran nifer y busnesau sy'n gweithredu yn y sector hefyd. Gyda'i gilydd, mae'r holl ffactorau hyn yn golygu bod cymariaethau ag astudiaethau blaenorol yn llai cadarn a dilys. Felly, dylid trin unrhyw gymariaethau tebyg yn fynegol yn unig.

Yn ogystal â'r dadansoddiad o dueddiadau, rhoddwyd cyd-destun i ganlyniadau'r arolwg drwy feincnodi â'r boblogaeth fusnes gyffredinol yng Nghymru ac â'r sector busnes cymdeithasol mewn rhannau eraill o'r DU. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi defnyddio data o'r Gofrestr Fusnes Ryngadrannol (IDBR) a'r arolwg Cyflwr Menter Gymdeithasol diweddaraf a gynhaliwyd gan Fenter Gymdeithasol y DU (2021)[1], er y dylid trin unrhyw gymariaethau rhwng yr arolygon hyn yn fynegol, gan eu bod yn dibynnu ar ddulliau samplu gwahanol ac yn cael eu cynnal ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

[1] https://www.socialenterprise.org.uk/seuk-report/no-going-back-state-of-social-enterprise-survey-2021/

## 2.4 Cyd-destun polisi

Mae datblygu polisi yng Nghymru wedi canolbwyntio'n gynyddol ar y cysyniad o dwf cynhwysol h.y. y cysyniad o sicrhau y caiff twf economaidd ei ddosbarthu'n deg ar draws y gymdeithas a'i fod yn creu cyfleoedd i bawb.[2] Roedd y cysyniad hwn yn flaenllaw ym mhapur strategaeth craidd Llywodraeth Cymru yn arwain at 2021, h.y. 'Ffyniant i Bawb', a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, sy'n datgan:

> "Ein rôl fel llywodraeth yw cynnal economi sy'n gwella ein cyfoeth a hefyd ein llesiant drwy dwf cynhwysol. Mae hynny'n golygu sicrhau bod unigolion ac ardaloedd gwahanol o Gymru yn gallu manteisio'n deg ar y budd sy'n deillio o dwf economaidd."[3]

Atgyfnerthwyd hyn gan y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021. Mae'r genhadaeth yn mynegi'r dymuniad i "adeiladu ar y cynnydd yr oeddem yn ei wneud o ran sicrhau economi fwy cynhwysol" drwy greu 'economi lesiant' sy'n "helpu pawb i wireddu eu potensial [...] lleihau anghydraddoldeb a rhannu cyfoeth a llesiant ledled Cymru". Mae cyflawni 'economi gyfartal' yn cynrychioli un o'r tri chanlyniad, y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fynnu a hyrwyddo gwaith teg.

Mae aliniad cryf rhwng yr uchelgais hon a'r model busnes cymdeithasol sy'n cyfuno dymuniad i wneud elw â buddsoddi'r elw hwnnw i greu newid cymdeithasol cadarnhaol. Yn wir, caiff hyn ei gydnabod yn y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, sydd ag uchelgais benodol i annog mentrau cymdeithasol a busnesau dan berchnogaeth cyflogeion fel rhan o'r economi lesiant:

> "Rydym yn bwriadu helpu i ailadeiladu, cynyddu ac atgyfnerthu'r sector menter gymdeithasol, i sicrhau mai dyna'r model a ffefrir yn naturiol gan entrepreneuriaid sy'n darparu atebion i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol."[5]

[2] https://www.oecd.org/inclusive-growth/
[3] Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar y economi', 2017.
[4] Llywodraeth Cymru, 'Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi', 2021.
[5] Ibid.

Trwy adeiladu ar hyn, ystyrir bod y cysyniad o economi sylfaenol yn ddull allweddol ar gyfer sbarduno twf cynhwysol. Yr economi sylfaenol yw darparu nwyddau a gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, sy'n cwmpasu gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth, manwerthu ac ati. Mae'n cynnwys busnesau sydd wedi'u hymgorffori yn eu cymunedau ac mae'n dod yn rhan gynyddol bwysig o ddull datblygu economaidd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys ffocws ar le a gwneud cymunedau'n gryfach ac yn fwy cydnerth. Mae targedu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol wedi'i lunio i greu amodau cyflogaeth da, lleihau'r arian sy'n cael ei ollwng o gymunedau, a mynd i'r afael â chost amgylcheddol cadwyni cyflenwi estynedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLlCD) hefyd yn cael ei ystyried yn fframwaith ar gyfer datblygu model economaidd newydd sy'n annog twf cynaliadwy ar draws pob rhan o Gymru, ac yn rhoi'r agenda twf cynhwysol wrth wraidd pob penderfyniad polisi pwysig. Mae'r Ddeddf yn creu rhwymedigaeth gyfreithiol i gyrff cyhoeddus wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu. Caiff ei thanategu gan saith nod llesiant ac mae'n creu amgylchedd ffafriol i fusnesau cymdeithasol oherwydd bod cydweddiad clir, naturiol rhwng diben cymdeithasol busnesau yn y sector a diben y Ddeddf.

Mae adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg[6] yn diffinio gwaith teg fel gwaith lle mae "gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu". Mae nodweddion o fewn y diffiniad hwn yn cynnwys gwobrwyo teg, llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth, sy'n bwysig o ystyried bod rhan o'r gwerth cymdeithasol y tybir bod gan y sector busnes cymdeithasol yn ei rôl fel cyflogwyr teg sy'n cynnig cyflog ac amodau teg, sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru'n 'wlad gwaith teg'. Mae llawer o'r ymrwymiadau hyn yn cael eu symud ymlaen drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft hefyd.

Yn olaf, ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi argyfwng hinsawdd yn 2019, bu ffocws polisi cynyddol ar yr agenda werdd ac, yn benodol, ar gyflawni targedau sero net. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Strategol Sero Net,[7] sy'n pennu 52 o fentrau a fydd yn cael eu hasesu a'u hadolygu i gyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2030.



[6] Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, 2019
[7] Cynllun Strategol Sero Net, 2022




# Adran 03
# **Cyfansoddiad y sector**

**03**


»

# » 03 Cyfansoddiad y sector

## 3.1 Cwmpas daearyddol a busnesau newydd

Amcangyfrifom fod 2,828 o fusnesau yn y sector erbyn hyn, sef cynnydd o 22 y cant o gymharu â 2020 (2,309). Mae'r ffigur isod yn dangos dosbarthiad daearyddol busnesau cymdeithasol yng Nghymru.

**Ffigur 3.1: Dosbarthiad daearyddol busnesau cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru**





**Ffynhonnell:** Rhestr Gysylltiadau Wavehill (n=2828)

Gellir dadansoddi dosbarthiad daearyddol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, canran y busnesau cymdeithasol o gyfanswm y stoc busnesau cymdeithasol o gymharu â chanran y busnesau eraill ym mhob awdurdod lleol. Yn ail, busnesau cymdeithasol fel cyfran o gyfanswm o stoc busnesau ar gyfer pob awdurdod lleol.

Gan ddefnyddio'r math cyntaf o ddadansoddiad, mae gan Gaerdydd ganran tebyg o gyfanswm y busnesau (11 y cant) i ganran y busnesau cymdeithasol (12 y cant). Yn yr un modd â dadansoddiadau blaenorol, ymddengys bod crynhoad o fusnesau cymdeithasol yn rhanbarth Cymoedd De Cymru o gymharu â'r stoc fusnes, tra bod canolbarth Cymru yn dueddol o fod â chrynhoad llai. Mae gan Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful ganran uwch o fusnesau cymdeithasol na'r stoc fusnes gyffredinol yng Nghymru. O gymharu â hyn, mae Powys a Sir Fynwy yn dueddol o fod â chanran is o fusnesau cymdeithasol o gymharu â chyfanswm y stoc fusnes.

Yn yr un modd ag amcangyfrifon blaenorol, mae'r ffigur ar gyfer Bro Morgannwg yn allanolyn, o ystyried yr ychwanegwyd rhestr fusnesau GVS, nad oedd yn cael ei ailadrodd unrhyw le arall yng Nghymru; felly, nid yw'n cynnig amlinelliad cymaradwy o weithgarwch busnesau cymdeithasol yn yr ardal.

**Ffigur 3.2: Dosbarthiad daearyddol busnesau cymdeithasol o gymharu â'r holl fusnesau**





**Ffynhonnell:** Data Cysylltiadau Wavehill (n=2474) a Data Cyfrifiadau Busnes IDBR (n=108,055)

Mae dadansoddi cyfran o'r busnesau cymdeithasol o gyfanswm y busnesau yn atgyfnerthu bod gan ranbarth y de-ddwyrain weithgarwch cryf o ran busnesau cymdeithasol. Mae'r map isod yn dangos hyn, gan ddangos cyfran y busnesau cymdeithasol o gyfanswm y stoc fusnes.





**Ffigur 3.3: Busnesau cymdeithasol fel cyfran o gyfanswm y stoc fusnes**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill (n=315) a Nomis (n=108,055)

Mae'n werth nodi bod pob rhanbarth wedi gweld cynnydd yn y stoc busnesau cymdeithasol fel cyfran o'r holl fusnesau er 2020. Blaenau Gwent sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf o ran y stoc busnesau cymdeithasol, sef cynnydd o 1.2 y cant o 3.1 y cant yn 2020 i 4.3 y cant yn 2022. Merthyr Tudful sydd â'r gyfran uchaf o fusnesau cymdeithasol, sydd wedi parhau'n gyson dros y chwe blynedd diwethaf.


**Ffigur 3.4: Cyfran y busnesau cymdeithasol o gyfanswm y stoc fusnes yn 2020 a 2022**




**Ffynhonnell:** Data Cysylltiadau Wavehill (n=2474) a Data IDBR (n=108,055)

Mae'r amrywiad rhanbarthol i'w weld yn fwyaf amlwg yn Ffigur 3.5 isod, lle mae gan dde ddwyrain Cymru y gyfran uchaf o fusnesau cymdeithasol, ar gyfartaledd, sef 2.9 y cant, tra bod y ffigur hwn yn 1.8 y cant yng nghanolbarth Cymru.

**Ffigur 3.5: Cyfran y busnesau cymdeithasol o gyfanswm y stoc fusnes fesul rhanbarth, 2018, 2020 a 2022**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

## 3.1.1 Gweithgarwch busnesau newydd

Mae dadansoddiad o oedran busnesau yn awgrymu y bu cynnydd mewn busnesau newydd ers yr arolwg diwethaf yn 2020, gyda 25 y cant o'r holl fusnesau a arolygwyd yn 2022 wedi dechrau masnachu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn yn gynnydd o 17 y cant yn 2020 ac 11 y cant yn 2018. Fodd bynnag, gallai'r ffigur hwn fod yn gysylltiedig â newid i broffil poblogaeth busnesau cymdeithasol a gedwir gan Cwmpas (sy'n cyflwyno rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru), yn gysylltiedig â gwella cymorth busnes BCC i fusnesau newydd.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, mae craidd o fusnesau sefydledig o hyd, gyda 52 y cant o fusnesau (cyfanswm o 154) yn masnachu am 11 o flynyddoedd neu'n hwy. Ymddengys bod gweithgarwch busnesau newydd wedi'i ddosbarthu ar draws 2020, 2021 a 2022, â chanran lled debyg o fusnesau'n nodi y buont yn masnachu am lai na blwyddyn (naw y cant ), 1 flwyddyn (naw y cant) a dwy flynedd (saith y cant).


**Ffigur 3.6: Oedran busnesau adeg yr arolwg**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

Mae dadansoddiadau pellach yn awgrymu bod amrywiad daearyddol yn nosbarthiad gweithgarwch busnesau newydd, sydd i'w weld trwy gymharu dosbarthiad cyffredinol y busnesau a arolygwyd o gymharu â gweithgarwch busnesau newydd yn ôl awdurdod lleol. Mae Ffigur 9 yn dangos mai Caerdydd sydd â'r lefelau uchaf o weithgarwch busnesau newydd o hyd, gydag 16 y cant o fusnesau newydd (12 o 74 o fusnesau) wedi'u lleoli yn y brifddinas o gymharu ag 11 y cant yn unig o'r holl fusnesau a arolygwyd (33 o 298 o fusnesau). Yn yr un modd, mae gan Sir Gâr, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam weithgarwch busnesau newydd cryf, sy'n uwch na chyfran eu stoc busnesau. O gymharu â hynny, dim ond un y cant o fusnesau newydd sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd (un o 74 o fusnesau), er bod gan y sir honno'r trydydd canran uchaf o gyfanswm y busnesau a arolygwyd (wyth y cant neu 24 o 298 o fusnesau).

**Ffigur 3.7: Cyfran y busnesau cymdeithasol a'r busnesau cymdeithasol newydd a arolygwyd fesul awdurdod lleol**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

## 3.2 Math o sefydliad ac arweinyddiaeth

Roedd ymarferion mapio blaenorol yn awgrymu y gallai cyfran gynyddol o fusnesau cymdeithasol sy'n ystyried eu hunain yn fentrau cymdeithasol a chyfran ostyngol o elusennau adlewyrchu tuedd tuag at ffocws mwy masnachol yn y sector. I ddeall hyn ymhellach, addaswyd y cwestiwn ar y math o fusnes cymdeithasol i gynnwys elusennau sydd â gweithgareddau masnachu. Fel y cyfryw, nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol â ffigurau arolygon blaenorol. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn dangos canran is o fentrau cymdeithasol nag yn 2020 (73 y cant), yn disgyn i 66 y cant. Mae cyfanswm canran yr elusennau yn is hefyd, sef 28 y cant yn 2022, yn disgyn o 35 y cant yn 2020.

**Ffigur 3.8: Mathau o fusnesau cymdeithasol a arolygwyd yn 2022**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill (n=331)

Dilëwyd yr opsiwn 'busnes a gynorthwyir' o'r cwestiwn hwn hefyd a'i gynnwys ar wahân fel cwestiwn dilynol. Mae diffiniad llawn o fusnes a gynorthwyir i'w weld yn Atodiad 2. Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod llawer mwy o fusnesau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer busnes a gynorthwyir nag sy'n sylweddoli hynny. Mae hyn yn bwysig, gan fod cyfleoedd neilltuedig i fusnesau a gynorthwyir sydd wedi'u corffori o fewn caffael cyhoeddus. Felly, gofynnwyd dau gwestiwn dilynol i ymatebwyr nad oeddent yn dewis yr opsiwn hwn i ddeall gwir faint gweithgarwch busnes a gynorthwyir. I ddechrau, nododd 22 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn fusnes a gynorthwyir, dywedodd 41 y cant nad oeddent yn fusnes a gynorthwyir, a dywedodd 37 y cant nad oeddent yn gwybod. Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r rhai a ymatebodd nad oeddent yn gwybod, lle y rhoddwyd diffiniad llawn a gofynnwyd i'r ymatebwyr eto a oedd eu gweithrediad yn bodloni'r meini prawf. Fel y cyfryw, dywedodd gyfanswm o 28 y cant (94 o 332 o fusnesau) eu bod yn fusnes a gynorthwyir.

Mae statws cyfreithiol busnesau cymdeithasol wedi parhau'n debyg i ymarferion blaenorol, ac mae ychydig dros hanner y busnesau'n gweithredu fel cwmnïau cyfyngedig drwy warant.

**Ffigur 3.9: Statws cyfreithiol busnesau cymdeithasol yn 2018, 2020 a 2022 (sampl gyflawn)**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

## 3.2.1 Proffil arweinyddiaeth

Gofynnwyd cwestiynau i fusnesau am broffil arweinyddiaeth eu busnes, gan gynnwys nifer yr unigolion yn eu tîm arweinyddiaeth (gan gynnwys cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr anweithredol) a phroffil demograffig yr arweinwyr.

Nifer gyfartalog yr unigolion ar dîm arweinyddiaeth oedd 6.5, ac roedd gan 47 y cant o fusnesau rhwng dau a phump o unigolion a 34 y cant ohonynt rhwng chwech a deg. Roedd demograffeg yr unigolion hyn yn adlewyrchu ymarferion mapio blaenorol, sy'n awgrymu bod cydbwysedd lled gyfartal o ran rhywedd ymhlith timau arweinyddiaeth, sy'n uwch o lawer na'r hyn sy'n nodweddiadol yn y sector preifat. Tra mae cyfartaledd o 51 y cant o uwch dimau arweinyddiaeth busnesau cymdeithasol yn fenywod, mae gan 56 y cant o fusnesau cymdeithasol fenyw fel eu rheolwr uchaf.

**Ffigur 3.10: Cyfran gyfartalog y grwpiau demograffig ymhlith uwch dimau arweinyddiaeth busnesau cymdeithasol 2022**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill (n=245)

Dim ond pump y cant o fusnesau cymdeithasol oedd dan arweiniad pobl o grŵp ethnig lleiafrifol, sy’n cynrychioli cynnydd o un y cant er 2020. O ystyried bod Cyfrifiad 2021[8] wedi datgelu nad oedd 6.2 y cant o’r boblogaeth oedolion yn uniaethu â’r categori lefel uchel “Gwyn”, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli ymhlith arweinwyr busnesau cymdeithasol o gymharu â phoblogaeth breswyl arferol Cymru.

Mae’r data hefyd yn awgrymu bod pobl sy’n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn cael eu tangynrychioli rhywfaint ymhlith timau arweinyddiaeth y sector. Roedd gan 17 y cant o dimau arweinyddiaeth busnesau cymdeithasol anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, ar gyfartaledd, o gymharu â 21 y cant o’r rhai yng Nghymru sydd ag anabledd. Fodd bynnag, mae gan 25 y cant o fusnesau cymdeithasol unigolyn ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor fel eu rheolwr uchaf.


Ymddengys y bu ymgysylltu ag entrepreneuriaid ifanc yn her arall i fusnesau cymdeithasol yng Nghymru, a thri y cant o’r tîm arweinyddiaeth sydd dan 25 oed, sy’n debyg i ffigurau 2020.

## 3.3 Sectorau gweithredol

Hunangofnododd mwyafrif y busnesau cymdeithasol eu sectorau gweithredol, tra codiwyd rhai ohonynt â llaw yn ôl disgrifiad o’u gwasanaethau. Gallai’r newid i’r proffil sectoraidd adlewyrchu’r fethodoleg yn 2020, lle’r oedd yn haws cyrraedd y sectorau a oedd yn fwy tebygol o fod wedi atal masnachu, fel y celfyddydau a hamdden, canolfannau cymunedol a llety, tra’r oedd y sectorau mwy gweithredol o ran ymateb i’r pandemig e.e. iechyd a gofal, yn anoddach o lawer i’w cyrraedd. Fel y cyfryw, ni ddylid ystyried bod y ffigurau hyn yn arwydd o’r union newidiadau i’r sectorau diwydiannol dros amser, ond yn adlewyrchiad o gyfansoddiad cyffredinol busnesau.

[8] Cyfrifiad 2021

### Ffigur 3.11: Sectorau gweithredol allweddol busnesau cymdeithasol yn 2020 a 2022




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

Eto, mae data'r arolwg yn dangos ystod eang o weithgarwch ar draws busnesau cymdeithasol, gyda busnesau'n gweithredu mewn amrywiaeth o sectorau yn yr economi. Ymddengys bod gan sectorau yn yr economi sylfaenol, fel iechyd ac addysg, bwysigrwydd cynyddol ymhlith busnesau cymdeithasol.

Ymddengys y bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y busnesau cymdeithasol sy'n gweithio fel canolfannau cymunedol neu fannau cymdeithasol, sy'n cyfrif am 20 y cant o'r busnesau cymdeithasol a ymatebodd yn 2020 ac 11 y cant yn unig yn 2022. Er y gallai hyn fod oherwydd samplu'r arolwg yn ystod 2020, gallai adlewyrchu tueddiad ehangach hefyd o ran cau canolfannau cymunedol.[9]

Mae'r data hefyd yn dangos bod cyfran fawr o fusnesau cymdeithasol yn grwpiau cymunedol llai neu'n ddarparwyr y celfyddydau a hamdden, sy'n cynnwys sefydliadau celfyddydau cymunedol, elusennau treftadaeth, clybiau chwaraeon, cyrff llywodraethol, gweithredwyr canolfannau hamdden, darparwyr dosbarthiadau gymnasteg a dawns, a llawer mwy.

[9] Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, tudalen 26


## 3.4 Maint busnesau ac amcangyfrifon y sector

Mae'n bwysig nodi bod gosod cyfyngiadau yn ystod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y sector i raddau amrywiol, yn amodol ar y busnes dan sylw. Mae gwahaniaethau o ran cymorth grant, galw masnachol a'r gallu i weithredu yn golygu bod perfformiad, maint a throsiant busnesau wedi newid yn sylweddol mewn gwahanol ffyrdd rhwng 2020 a 2022. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei chyflwyno yn y bennod hon.

### 3.4.1 Cyflogaeth

Mae'r data sy'n nodi maint busnesau cymdeithasol yn adlewyrchu'r strwythur busnes ehangach, i raddau helaeth, lle caiff maint busnes ei bennu gan nifer y cyflogeion. Fodd bynnag, mae mwy na ddwywaith cyfran y busnesau cymdeithasol bach (10-49 o gyflogeion) o gymharu â'r holl fusnesau (9 y cant ar gyfer pob busnes a 21 y cant ar gyfer busnesau cymdeithasol), a chanran is o ficro busnesau (1-9 o gyflogeion) (89 y cant ar gyfer pob busnes a 75 y cant ar gyfer busnesau cymdeithasol).


**Ffigur 3.12: Maint busnesau cymdeithasol o gymharu â chyfanswm y stoc fusnes**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

Mae'n ymddangos y bu gostyngiad yng nghanran y busnesau cymdeithasol heb unrhyw staff cyflogedig (unig fasnachwyr neu'r rhai sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr), sydd wedi gostwng i 29 y cant yn 2022 o 32 y cant yn 2020. Wrth ddadansoddi ar gyfer y busnesau a barwyd gan banel, mae cyfradd y gostyngiad yn fwy. Yn wir, bu gostyngiad mewn busnesau â phedwar neu lai o gyflogeion a chynnydd ymhlith y rhai sydd â rhwng pump a phedair ar hugain o staff. Mae'r data'n adlewyrchu llawer o ganlyniadau eraill ar draws yr arolwg, lle yr ymddengys bod newidiadau a ddaeth i'r amlwg yn 2020 wedi dychwelyd i ffigurau 2018. Mae Ffigur 15 yn dangos hyn isod, lle y gwelwyd symudiad tuag at gyflogaeth is ac felly gweithrediadau busnes llai rhwng 2018 a 2020, sydd wedi gwrthdroi erbyn hyn rhwng 2020 a 2022.

**Ffigur 3.13: Bandiau cyflogaeth busnesau cymeithasol yn 2018, 2020 a 2022 (sampl gyflawn)**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

Maint cyfartalog cymedrig yr holl fusnesau a ymatebodd oedd 23 o gyflogeion. Fel yr amlinellwyd yn y fethodoleg uchod, mae dadansoddiad o ffynonellau crynoadol ar fusnesau yn y sector wedi amcangyfrif mai maint y sector yw 2,828 o fusnesau. Gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddiwyd mewn ymarferion mapio blaenorol yn defnyddio'r cyfartaledd cymedrig a maint amcangyfrifedig y sector, mae hyn yn creu amcangyfrif sector cyfan o 65,700 o gyflogeion yn gweithio yn y sector.


Oherwydd yr heriau methodolegol a wynebwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad diwethaf (oherwydd y pandemig, yn bennaf), roedd adroddiad 2020 yn cynnwys dau amcangyfrif ar gyfer cyfanswm nifer y cyflogeion yn y sector. Lluniodd y cyntaf, gan ddefnyddio'r un dull a nodwyd uchod, amcangyfrif o 39,878 o gyflogeion, a oedd yn anghyson â'r amcangyfrif yn 2018 o 58,000 o gyflogeion yn y sector ac a oedd, yn bennaf, oherwydd bod maint cyfartalog y busnesau a arolygwyd y flwyddyn honno yn anarferol o isel. Felly, defnyddiwyd dull arall trwy gynnal dadansoddiad o'r sampl gyfatebol a nodi patrymau twf i lunio amcangyfrif terfynol o'r sector, sef 55,969 yn 2020. Felly, mae ffigur 2022 yn cynrychioli cynnydd o 17 y cant o gymharu â'r ffigurau cyflogaeth yn 2020. Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon ar sampl gyfatebol 2020-2022, bu twf cyflogeion yn y busnesau hyn yn fwy cymedrol, sef 1.3 y cant. Mae cymhwyso'r twf hwn i amcangyfrif y llynedd yn rhoi amcangyfrif diwygiedig o 56,713 o gyflogeion yn y sector.

**Felly, rydym yn amcangyfrif bod nifer y cyflogeion sy'n gweithio yn y sector rhwng 56,713 a 65,299 o gyflogeion.**

## 3.4.2 Trosiant

Fel yn 2020, mae data trosiant yn dangos natur amrywiol y sector, gan ei fod yn cynnwys busnesau bach iawn a busnesau mawr iawn.

**Ffigur 3.14: Bandiau trosiant a grybwyllwyd yn 2020 a 2022**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill

Wrth edrych ar dueddiadau'r samplau cyfatebol, maent yn awgrymu bod perfformiad a throsiant busnesau wedi amrywio'n sylweddol yn ystod y cyfnod. Wrth edrych ar ddata o fusnesau cyfatebol a lenwodd yr arolwg yn 2020 a 2022, mae 88 y cant o fusnesau naill ai wedi gweld cynnydd neu ostyngiad yn eu trosiant. Y newid canrannol canolrifol fu 50 y cant neu -33 y cant o'u cyfanswm trosiant.

**Tabl 3.1: Newidiadau mewn trosiant o 2020 i 2022**

| | N | % | Newid cyfartalog | Newid % canolrifol mewn incwm |
|---|---|---|---|---|
| Wedi cynyddu | 54 | 57% | £207,141 | 50% |
| Wedi aros yr un fath | 11 | 12% | | |
| Wedi gostwng | 30 | 32% | -£96,708 | -33% |
| Cyfanswm N | 95 | | | |


Mae'r amrywiadau hyn yn fwy amlwg wrth archwilio'r sampl gyfatebol ar draws 2018, 2020 a 2022. Y newidiadau canolrifol mewn trosiant rhwng 2018 a 2020 lle'r oedd trosiant naill ai wedi cynyddu neu ostwng oedd 38 y cant a -25 y cant.

**Tabl 3.2: Newidiadau mewn trosiant o 2020 i 2022 o sampl gyfatebol 3 blynedd**

| | N | % | Newid % canolrifol mewn incwm |
|---|---|---|---|
| Wedi cynyddu | 31 | 61% | 301% |
| Wedi aros yr un fath | 0 | 0% | |
| Wedi gostwng | 20 | 39% | -78% |
| Cyfanswm N | 51 | | |

Yn olaf, lle'r oedd data ar gael ar draws pob un o'r 3 blynedd, roedd yn amlwg bod gan ychydig o fusnesau naill ai twf neu ddirywiad cyson yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n debygol bod y ffigurau hyn wedi'u gogwyddo'n drwm gan effeithiau'r pandemig, lle y cyfyngodd y cyfyngiadau ar y gallu i fasnachu a darpariaeth cymorth grant ar botensial llawer o fusnesau i dyfu. Mae Ffigur 3.15 yn dangos bod canran yr incwm a grëwyd trwy fasnachu wedi amrywio yn ystod y cyfnod ar gyfer y sampl gyfatebol.

**Ffigur 3.15: Newidiadau yng % yr incwm a grëwyd trwy fasnachu 2018-2022**





Cyfrifwyd y trosiant cyfartalog ar gyfer cyfranogwyr yr arolwg gan ddefnyddio cyfuniad o ffigurau hunangofnodedig a ffigurau canolbwynt lle y defnyddiwyd bandiau trosiant. Ar gyfer busnesau â throsiant a oedd yn fwy na £10 miliwn, cymerwyd eu trosiant blynyddol o adroddiadau cyhoeddus.

O ystyried yr eithafoedd yn y set ddata, cyfrifwyd dau drosiant cyfartalog a oedd naill ai'n cynnwys neu'n hepgor trosiant arbennig o fawr (sydd weithiau'n cael eu galw'n allanolion) a gasglwyd yn yr arolwg. Creodd hyn drosiant cyfartalog amcangyfrifedig o £1.38m fesul sefydliad wrth gynnwys y sefydliad mawr a £715,161 pan hepgorwyd yr allanolyn.

Cymhwyswyd y ffigurau hyn i'r ffigur sector cyfan o 2,828 o fusnesau i bennu'r trosiant amcangyfrifedig ar gyfer y sector i gyd. Yna, addaswyd yr amcangyfrif i gynnwys trosiannau o sefydliadau mawr iawn ychwanegol sydd â throsiant uchel iawn (er enghraifft Glas Cymru a Chymdeithas Adeiladu Principality), nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr arolwg. Pan hepgorwyd y trosiant uchel a gasglwyd yn y sampl o'r cyfartaledd, cynhwyswyd hyn yn yr addasiad hefyd.

**Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth y sector, yn seiliedig ar drosiant amcangyfrifedig busnesau cymdeithasol hysbys a chanfyddadwy yng Nghymru, yw rhwng £3.1 a £4.8 biliwn.** Fel y crybwyllwyd uchod, mae amrywiadau eithafol o ran perfformiad busnes yn ystod y cyfnod o 2020 i 2022 yn golygu bod rhaid trin y ffigurau hyn yn ofalus, yn enwedig wrth gymharu'r ffigur hwn â throsiant amcangyfrifedig blaenorol y sector.

Nid yw'r amcangyfrifon hyn o weithgarwch busnesau cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cyfrif am gyfraniad busnesau cymdeithasol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru ond sydd â phencadlys rywle arall, fel Co-operative Group a John Lewis & Partners. Felly, mae'r cyfraniad a wneir gan yr holl weithgarwch busnes cymdeithasol yng Nghymru hyd yn oed yn fwy na'r hyn a ddangosir yma.

## 3.4.3 Maint sectorau gweithredol

Mae dadansoddiad o faint busnesau yn ôl sector gweithredol yn datgelu'r amrywioldeb yn y sector ymhellach. Mae busnesau'r celfyddydau/hamdden a chanolfannau cymunedol yn cyfrif am bron i chwarter yr holl fusnesau a arolygwyd (24 y cant); fodd bynnag, maent yn cyfrif am bump y cant yn unig o'r cyflogeion a phedwar y cant yn unig o'r trosiant a gynhyrchir gan yr ymatebwyr. I'r gwrthwyneb, mae'r nifer fach o gyflogwyr yn y sector 'eiddo' yn cyfrif am 38 y cant o gyflogaeth a 67 y cant o'r holl drosiant sy'n cael ei greu, tra mae iechyd a gofal yn cyfrif am lefelau anghymesur o uchel o gyflogaeth hefyd.



Adran 04

# Gwerth ac effeithiau cymdeithasol

04



# 04 Gwerth ac effeithiau cymdeithasol


Mae busnesau cymdeithasol yn wahanol i gwmnïau sector preifat clasurol ac elusennau traddodiadol gan eu bod yn taro cydbwysedd rhwng y ddau, gan geisio masnachu fel unrhyw fusnes arall ar y naill law, ond maent hefyd yn bodoli'n bennaf i gyflawni eu cenhadaeth gymdeithasol. Gallai'r genhadaeth hon gynnwys creu gwerth cadarnhaol i'r cymunedau lleol maent yn gweithredu ynddynt neu ar lefel genedlaethol. Ar ôl trafod y perfformiad busnes a masnachu yn y bennod flaenorol, rydym bellach yn troi ein sylw at archwilio eu gwerth a'u heffeithiau cymdeithasol.

## 4.1 Amcanion cymdeithasol

Mae data 2022 yn awgrymu cynnydd sylweddol yn nifer yr amcanion cymdeithasol a nodwyd gan sefydliadau. Nododd busnesau eu bod yn gweithio tuag at bum amcan cymdeithasol, ar gyfartaledd, fel yr amlinellir yn yr opsiynau ymateb isod. Yn benodol, ymddengys bod gwella iechyd a lles yn sbardun cymdeithasol allweddol i dri chwarter y busnesau (75 y cant neu 186/249 o fusnesau), sy'n adlewyrchu'r ffaith mai iechyd oedd yr ail sector gweithredol mwyaf ar gyfer busnesau cymdeithasol. Bu gwella cymuned benodol yn bwysig i fusnesau cymdeithasol yn gyson, sy'n dangos rôl busnesau cymdeithasol mewn adfywio cymunedol â ffocws lleol.

Mae nifer y busnesau cymdeithasol sy'n cefnogi mentrau/sefydliadau cymdeithasol eraill wedi mwy na dyblu er 2018, gyda 44 y cant o fusnesau'n uniaethu â'r amcan cymdeithasol hwn, yn codi o 16 y cant yn 2018 a 25 y cant yn 2020. Mae cefnogaeth yn ymwneud ag allgau cymdeithasol ac ariannol yn parhau i gynyddu, sy'n debygol o adlewyrchu rhai o'r anghenion a achoswyd gan y pandemig, chwyddiant uchel ac ansicrwydd economaidd yn gyffredinol.

### Ffigur 4.1: Prif amcanion cymdeithasol fel y'i nodwyd gan sefydliadau (sampl gyfan)





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2018, 2020 a 2022

Mae dadansoddiad o oedran busnesau o gymharu â'u hymrwymiad i genadaethau cymdeithasol yn awgrymu nad oes unrhyw gydberthyniad rhwng oedran y busnes a'i ymrwymiad i amcanion cymdeithasol.

Ymddengys bod ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth allweddol yn cynyddu'n sylweddol, gydag 82 y cant o fusnesau'n ymwybodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), yn cynyddu o 27 y cant yn 2018 a 73 y cant yn 2020. Yn yr un modd, roedd dau o bob tri o fusnesau (66 y cant) yn ymwybodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), sydd wedi cynyddu o 54 y cant yn 2020. Gallai hyn fod wedi effeithio ar y cynnydd yn nifer y busnesau sy'n nodi ymrwymiad tuag at iechyd a lles.

Yn yr un modd, bu cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r maes polisi yn ymwneud â'r economi sylfaenol, o 20 y cant yn unig o fusnesau yn 2020 i 31 y cant yn 2022.


**Ffigur 4.2: Ymwybyddiaeth busnesau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) 2018, 2020 a 2022**




## 4.1.1 Mesur effaith gymdeithasol

Mae cyfran debyg o fusnesau'n mesur eu heffaith gymdeithasol yn 2022 o gymharu â 2020 (43 y cant o gymharu â 44 y cant). Ymhlith y rhai a ddywedodd eu bod yn mesur effaith, dywedodd 59 y cant bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo eu busnes a chrybwyllodd 75 y cant arall eu bod yn ei ddefnyddio i fesur perfformiad y busnes. Ar gyfer 56 y cant o fusnesau, roedd mesur effaith gymdeithasol yn rhan sylfaenol o'u gweithrediadau.

**Ffigur 4.3: Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth am eich effaith gymdeithasol/amgylcheddol?**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=107)

## 4.2 Cyrchfannau elw

Y prif wahaniaeth rhwng busnes prif ffrwd a busnes cymdeithasol yw y caiff unrhyw warged a wneir gan fusnes cymdeithasol ei ailfuddsoddi yn y busnes neu'r gymuned yn bennaf, yn hytrach na'u bod yn cael eu sbarduno gan yr angen i wneud yr elw mwyaf i gyfranddalwyr a pherchenogion. Mae'r data'n awgrymu bod 90 y cant o fusnesau'n ailfuddsoddi gwarged i dyfu neu gynnal y busnes, sy'n lled debyg i flynyddoedd blaenorol. Bu cynnydd deublyg mewn busnesau sy'n defnyddio'u gwarged ar gyfer buddion cymunedol, cymdeithasol, amgylcheddol neu elusennol, a oedd yn cynrychioli 23 y cant o fusnesau yn 2020 a 47 y cant yn 2022. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r cynnydd yn eu hymrwymiadau anecdotaidd i amcanion cymdeithasol gael ei adlewyrchu mewn buddsoddiad ariannol mewn nodau cymdeithasol. Mae hyn yn gwrthdroi'r newid a welwyd yn 2020 i ryw raddau, lle'r oedd busnesau i'w gweld yn canolbwyntio mwy ar fuddsoddi yn y busnes yn hytrach na nodau cymdeithasol, efallai oherwydd yr ansicrwydd economaidd a achoswyd gan y pandemig.

Er bod ychydig iawn o'r busnesau a arolygwyd dan berchenogaeth gweithwyr neu sydd wedi'u seilio ar aelodaeth, bu cynnydd yn nifer yr ymatebion yn nodi y caiff gwarged ei symud i ymddiriedolaeth ar ran cyflogeion a'i ddosbarthu i aelodau. Nododd ymatebion eraill mewn ymatebion testun agored bod unrhyw warged yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi staff neu i wneud rhoddion.

**Ffigur 4.4: Beth ydych chi'n ei wneud ag unrhyw warged/elw rydych chi'n ei wneud? 2018,**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2018, 2020 a 2022

## 4.3 Arferion busnes

Tybir y daw rhan o werth cymdeithasol y sector o'i rôl fel cyflogwr teg sy'n cynnig cyflog ac amodau teg. Mae'r dadansoddiad uchod ar sut mae busnesau cymdeithasol yn defnyddio eu gwarged yn dangos y gallai fod cynnydd yn nifer y busnesau sydd dan berchenogaeth gweithwyr neu sefydliadau ag aelodaeth.

Mae cwestiynau eraill yn ymwneud â busnesau cymdeithasol fel cyflogwyr yn awgrymu bod 66 y cant ohonynt yn talu'r cyflog byw i'r holl staff (£9.50 ym mis Ebrill 2022). Mae hyn yn cynrychioli mân ostyngiad o 68 y cant yn 2020 (£8.72), a gostyngiad hyd yn oed mwy er 2018 pan roedd yn 76 y cant (cyflog byw £7.50). Dylid nodi bod Cyflog Byw y DU yn cynyddu'n flynyddol ac y bydd yn cynyddu eto ym mis Ebrill 2023 i £10.42. Dylid nodi hefyd, yn 2018, bod rhai busnesau cymdeithasol wedi mynegi pryderon mewn ymatebion testun agored yn ymwneud â'r llif arian mewn perthynas â'r cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol, gan awgrymu eu bod yn ymrwymedig i dalu cyflog teg i'w staff, ond y gallant gael trafferth sicrhau bod eu trosiant yn cynyddu â chwyddiant.

Canfu'r arolwg bod 22 y cant o gyflogwyr a oedd wedi cyflogi cyflogeion newydd yn y 12 mis diwethaf yn crybwyll bod y rhain yn cynnwys unigolion a oedd yn ddi-waith yn union cyn ymgymryd â'r swydd, a oedd yn cyfrif am 65 o rolau amser llawn a 141 o rolau rhan-amser. Mae hyn yn atgyfnerthu rôl y sector o ran cynnig cyfleoedd cyflogaeth i unigolion sydd ymhellach o'r farchnad lafar.


Ar ben hynny, mae'r data'n awgrymu bod busnesau cymdeithasol yn gyflogwyr lleol da, a bod 78 y cant o weithlu busnesau'n gweithio o fewn 10 milltir o'u gweithle, a oedd wedi cynyddu o 69 y cant yn 2020 a 57 y cant yn 2018. Er gwaethaf symud tuag at weithio ar-lein yn ystod y pandemig, mae'r ffocws cynyddol ar gyflogaeth tra-lleol yn awgrymu bod marchnad lafur busnesau cymdeithasol yn mynnu bod staff yn agos at leoliadau swyddfa o hyd.

### 4.3.1 Gwirfoddoli

Yn yr ymarfer mapio blaenorol, crybwyllwyd bod y pandemig wedi arwain at ostyngiad yn niferoedd y gwirfoddolwyr, gyda 52 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn 2020 yn crybwyll nad oeddent yn gallu gweithio yn ystod y pandemig. Mae data o arolwg 2022 yn awgrymu, er bod amcangyfrif y sector cyfan yn uwch yn 2022, mae hyn yn bennaf oherwydd twf yn nifer y busnesau yn y sector; ar gyfartaledd, mae gan sefydliadau lai o wirfoddolwyr nag oedd ganddynt yn 2020 (19 o gymharu â 20).

Mae dadansoddiad o'r sampl lawn yn 2022 a 2020 yn dangos bod nifer y sefydliadau a oedd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli yn debyg iawn (83 y cant yn 2022, 82 y cant yn 2022).

**Ffigur 4.5: Nifer y gwirfoddolwyr yn 2020 a 2022**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2020 a 2022


Trwy gymharu'r busnesau cyfatebol yn unig a gymerodd ran yn arolygon mapio 2020 a 2022 (n=110), roedd gan 45 y cant o fusnesau lai o wirfoddolwyr yn 2022, gydag 17 y cant ohonynt â llai na hanner nifer y gwirfoddolwyr a oedd ganddynt yn 2020. Amcangyfrifir mai colled net y gwirfoddolwyr i'r busnesau hyn oedd 395.

Gan ddefnyddio nifer amcangyfrifedig y busnesau yn y sector (2,828), graddiwyd nifer gyfartalog y gwirfoddolwyr ar gyfer pob busnes (19) i fyny i roi amcangyfrif o **54,261 o wirfoddolwyr** yn gweithredu yn y sector. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 14 y cant er 2020, oherwydd y twf yn nifer y busnesau yn y sector, mae'n debyg; fodd bynnag, mae ychydig islaw amcangyfrif 2018 o hyd, sef 57,688.

## 4.3.2 Y Gymraeg

Yn 2020, ychwanegwyd cwestiwn newydd at yr arolwg i ddarganfod i ba raddau yr oedd sefydliadau'n cynnig eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn 2022 yn cyd-fynd yn fras â'r ffigurau a grybwyllwyd yn 2020, er bod ymatebion o'r sampl gyfatebol yn awgrymu y bu mân gynnydd mewn busnesau nad ydynt yn cynnig y gwasanaethau hyn o gwbl.

**Ffigur 4.6: I ba raddau y mae busnesau'n cynnig eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o 2020 i 2022**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2020 a 2022 (n = 99)

Roedd yn gadarnhaol nodi bod tuag 8 y cant o fusnesau'n cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg pan nad oeddent wedi gwneud hynny gynt; fodd bynnag, nid oedd canran tebyg yn cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg mwyach, pan roeddent wedi gwneud hynny gynt. Nid oes unrhyw ddata ansoddol yn yr arolwg i ddarganfod pam y mae hyn yn wir, ond gallai'r achosion posibl gynnwys colli staff â'r sgiliau perthnasol, diffyg effeithiolrwydd neu gostau cyfieithu cysylltiedig.

**Tabl 4.1: Newidiadau i ddarpariaeth Gymraeg 2020 i 2022**


| | Arwyddion | Arwyddion Brandio a marchnata | Staff sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Yn cynnig gynt ond nid yw'n cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg mwyach | 9% | 11% | 9% |
| Nid oedd yn cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg gynt ond yn cynnig nawr | 7% | 9% | 8% |

n = 99

## 4.4 Gweithredu ar sero net

Yn 2022, gofynnwyd cwestiynau ychwanegol i fusnesau yn ymwneud ag ymrwymiadau a chamau gweithredu i ddod yn fusnes ag allyriadau carbon sero net. Dywedodd dros hanner y busnesau (51 y cant neu 127/248 o fusnesau) fod lliniaru'r argyfwng hinsawdd yn flaenorol 'uchel' neu 'hanfodol' iddynt. I'r gwrthwyneb, dywedodd 10 y cant nad oedd yn flaenoriaeth iddynt ac roedd gan 26 y cant farn niwtral.

**Ffigur 4.7: Faint o flaenoriaeth yw lliniaru'r newid yn yr hinsawdd i'ch busnes?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n= 248)


### 4.4.1 Ymrwymiadau

Gofynnwyd i fusnesau hefyd a ydynt wedi ymrwymo'n llawn neu wedi ystyried dod yn garbon niwtral neu'n sero net, gyda 15 y cant o fusnesau wedi ymrwymo a 36 y cant o fusnesau'n ystyried gwneud hynny. Mae hyn yn dangos, er bod llawer ohonynt yn teimlo bod mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn flaenoriaeth, nifer gyfyngedig o'r busnesau hyn sydd wedi ymrwymo'n llawn i ddod yn garbon niwtral neu'r sero net.

Fodd bynnag, nododd Adroddiad Arolwg Cyflwr Menter Gymdeithasol 2021[10] (SEUK21) fod mentrau cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd datganoledig (Cymru a'r Alban) yn fwy tebygol o fod wedi ymgorffori mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn eu cyfansoddiad (44 y cant) na'r cyfartaledd yn Lloegr (35 y cant), sy'n awgrymu hefyd fod gan fusnesau mewn ardaloedd mwy gwledig fwy o ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

[10] Adroddiad Arolwg Cyflwr Menter Gymdeithasol 2021

**Ffigur 4.8: A ydych chi wedi ymrwymo'n llawn neu'n ystyried dod yn garbon niwtral neu'n sero net?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 202 (n=249)

## 4.4.2 Camau gweithredu


Roedd busnesau'n fwyaf tebygol o fod wedi cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni (63 y cant neu 129/205 o fusnesau), tra'r oedd 39 y cant (72/184) yn ystyried newid i ynni adnewyddadwy. Gallai'r argyfwng ynni tua diwedd 2022, wedi'i ddilyn gan godi'r cap prisiau ynni a rhyfel Rwsia yn erbyn Wcráin fod wedi effeithio ar y ffigurau hyn.

Yn gymaradwy, mae adroddiad SEUK yn awgrymu bod 30 y cant o fentrau cymdeithasol wedi gosod dyfeisiau effeithlonrwydd ynni yn ystod y deuddeng mis diwethaf ac, yn ôl yr Arolwg Mewnwelediadau ac Amodau Busnes ym mis Mawrth 2022, crybwyllodd tuag wyth y cant o fusnesau eu bod wedi cymryd o leiaf un cam gweithredu strategol i ddiogelu'r amgylchedd.[11]



[11] Arolwg Mewnwelediadau ac Amodau Busnes Ton 53, ONS

**Ffigur 4.9 A ydych wedi ystyried neu wedi cyflwyno unrhyw rai o'r mesurau canlynol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022

Gofynnwyd cwestiwn testun agored i ymatebwyr ar sail lefel eu hymrwymiad i ddod yn garbon niwtral/sero net, fel y gwelwyd yn Ffigur 22 (uchod). Yna, cafodd yr ymatebion hyn eu codio'n ansoddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi ystyried neu wedi ymrwymo i ddod yn garbon niwtral neu'n sero net sut roeddent yn bwriadu cyflawni hyn, a chyfeiriodd 30 y cant ohonynt at newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy ac roedd 25 y cant arall ohonynt yn bwriadu gwella effeithlonrwydd ynni eu hadeiladau busnes. Nododd 27 y cant ymrwymiadau i ailgylchu neu leihau gwastraff ac 11 y cant ohonynt ymrwymiadau i ddefnyddio neu hwyluso cerbydau trydan. Nododd saith y cant o fusnesau fesurau gwrthbwyso carbon, fel plannu coed, a soniodd naw y cant am bolisi, cynllun neu strategaeth carbon.

> "Byddwn ni'n defnyddio paneli solar i gynhyrchu trydan, rydyn ni'n cynaeafu dŵr ac yn defnyddio offer ecogyfeillgar ar y safle ac yn ailgylchu ac ailddefnyddio cynhyrchion ar y safle."

Roedd busnesau nad oeddent wedi ystyried dod yn garbon niwtral neu'n sero net yn priodoli hyn i amrywiaeth o resymau. Nid oedd yn flaenoriaeth i 27 y cant o fusnesau (32/117), a soniodd llawer ohonynt am ddiffyg amser neu adnoddau staff a dywedodd rhai ohonynt fod eu ffocws ar eu cenhadaeth gymdeithasol graidd.

> Nid yw'n flaenoriaeth i ni ar hyn o bryd. Ein blaenoriaeth yw helpu i ddod o hyd i gartrefi i bobl ddigartref a'r rhai sydd mewn tlodi."

> Rydyn ni'n ceisio goroesi fel busnes ac nid oes gennym y cyllid i ddod yn garbon niwtral neu'n sero net ar hyn o bryd."

I 10 y cant o fusnesau (12/117), y gost o roi mesurau ar waith i ddod yn garbon niwtral oedd y prif reswm pam nad oedd yn rhywbeth roeddent wedi'i ystyried. Er enghraifft, nododd un busnes ei fod yn gweithredu o hen adeilad lle byddai cost mesurau arbed ynni yn rhy uchel. Roedd yr ymatebion yn nodi, i lawer o fusnesau, y tybiwyd mai mesurau effeithlonrwydd ynni oedd y prif gam gweithredu y byddai eu busnes yn gallu ei gymryd tuag at liniaru'r argyfwng hinsawdd. Yn yr un modd, crybwyllodd 18 y cant o fusnesau (21/227) nad oedd ganddynt rym i gymryd camau gweithredu, yn bennaf oherwydd eu bod yn rhentu lle ac nad oes ganddynt rym i wneud addasiadau i arbed ynni. Roedd 19 y cant (21/117) arall o fusnesau'n teimlo nad oedd dod yn garbon niwtral yn berthnasol i'w gwaith, gan nad oedd gan lawer ohonynt leoliadau penodedig, bod rhai ohonynt wedi'u lleoli y tu allan neu'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr.

Roedd llawer o'r datganiadau a wnaed gan yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar eu hallyriadau Cwmpas 1 (cyfleusterau a cherbydau) a Chwmpas 2 (ynni a brynir). Gallai hyn adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o brif ffynonellau effaith carbon busnesau. Dywed Business Growth Hub[12] i'r busnes cyfartalog, bod allyriadau Cwmpas 3 (yr allyriadau a wneir yn anuniongyrchol trwy eu cadwyn gyflenwi) yn gwneud y cyfraniad mwyaf o bell ffordd i'w hôl troed carbon.



[12] Business Growth Hub, A quick-fire guide to 'Scope 3' emissions, Awst 2021

> Nid oes gennym ni swyddfa. Mae pawb yn gweithio o bell gartref ac mae pob unigolyn yn gyfrifol am benderfynu beth i’w wneud. Rydyn ni’n sicr fel sefydliad, er enghraifft, wedi lleihau argraffu’n fawr ac wedi lleihau ymweliadau [wyneb-yn-wyneb] â chleientiaid i un, wedyn mae’n cael ei wneud ar sgrin.”

I'r busnesau hynny a oedd wedi ystyried ond heb gyflwyno’r opsiynau, nododd bron i hanner (44 y cant) o’r ymatebion bod angen cyllid neu gymorth ariannol arnynt i allu rhoi camau ar waith.


> Gallai sefydliadau llywodraeth ganolog helpu i bontio o dechnoleg tanwyddau ffosil i danwyddau adnewyddadwy oherwydd y costau uchel sy’n gysylltiedig â dod o hyd i gynhyrchion ecogyfeillgar i’w gwerthu neu dechnoleg i’w defnyddio, mae’r costau hynny’n anferth ac yn afresymol o ddrud.”

> Rydyn ni wedi datblygu strategaeth ynni gwyrdd ac rydyn ni’n ticio pethau i ffwrdd wrth fynd ymlaen ond, yn gyffredinol, maent yn costio llawer o arian, felly cymorth ariannol i’w rhoi ar waith.”

Ymhlith y 24 y cant (32/134) o fusnesau yr oedd angen cyngor ac arweiniad arnynt i helpu i gyflwyno mesurau i ddod yn garbon niwtral, roedd angen cyngor cynllunio ar ddau fusnes, nododd tri ohonynt fod angen cyngor penodol yn ymwneud â darparwyr ynni, nododd saith ohonynt fod angen cyngor pwrpasol neu gymorth ymgynghoriaeth arnynt ac ni nododd 17 ohonynt y math o gyngor roedd ei angen. Roedd angen cymorth ar chwe busnes (4 y cant) i ddatblygu cynllun strategol neu bolisi sero net ac roedd angen cymorth ar 11 o fusnesau (8 y cant) naill ai ag archwiliad amgylcheddol neu fesur eu hôl troed carbon.

> [Y cymorth y byddai ei angen] fyddai’r gwaith ymarferol o gyfrifo sut gallwn ni fod yn sero net. Gwybod sut olwg sydd ar yr ôl troed carbon o ran rhif ac yna gwybod yr opsiynau i’w wrthbwyso.”

**Ffigur 4.10: Rydych chi'n dweud eich bod wedi ystyried yr opsiynau hyn ond heb eu cyflwyno. Beth fyddai'n eich helpu i'w cyflwyno?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=134)



Adran 05

# Arferion busnes a pherfformiad masnachu

05

»


# 05 Arferion busnes a pherfformiad masnachu

## 5.1 Twf busnesau

I ddeall twf busnesau rhwng 2018 a 2022, mae'n fwyaf defnyddiol cymharu busnesau sydd wedi cyfrannu data ar drosiant neu gyflogaeth ar gyfer pob un o dair ton yr arolwg hwn. Mae hyn yn caniatáu cymharu ffigurau twf yn ystyrlon, sy'n sicrhau nad yw unrhyw dwf ymddangosiadol o ganlyniad i amrywiadau samplu.

Mae cymharu trosiant yn awgrymu darlun cymysg, gydag amrywiad rhwng 2018, 2020 a 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, mae rhai busnesau wedi tyfu'n gyson ac mae llawer ohonynt wedi colli trosiant yn sydyn naill ai yn 2020 neu 2022. Mae cyfran y busnesau sy'n ennill llai na 50,000 wedi cynyddu o 31 y cant yn 2020 i 39 y cant yn 2022. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod llai o fusnesau â throsiant sy'n llai na £25,000 nawr yn 2022 nag yn 2018, ar ôl cynnydd yn 2020.

**Ffigur 5.1: A allech chi gadarnhau trosiant eich sefydliad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (Sampl y Panel)**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=58)

Mae nifer gyfartalog y staff ym musnesau’r panel wedi cynyddu 15 y cant er 2020, â chyfartaledd o 40.7 o bobl o gymharu â 35.4 yn 2020. Nid oedd gan lai o ymatebwyr y panel unrhyw staff yn 2020, gyda 29 y cant (19/68) yn fusnesau unig fasnachwyr yn 2019 ac 19 y cant yn unig (13/68) yn unig fasnachwyr yn 2022.

Mae dangosyddion yn ymwneud â datblygu busnes yn awgrymu bod busnesau’n ceisio ehangu ac amrywiaethu, gan grybwyll amrywiaeth o ddangosyddion datblygu busnes yn ystod y 23 mis diwethaf. Mae llawer o’r dangosyddion yn cyd-fynd â ffigurau 2018 yn gyffredinol, ar ôl gostyngiad yn 2020, a all awgrymu bod busnesau mewn cyfnod o atgyfnerthu neu oroesi yn ystod y pandemig, ond eu bod yn ceisio tyfu yn 2022. Er enghraifft, mae 35 y cant o fusnesau (88/249) wedi amrywiaethu i sectorau newydd, sy’n cynrychioli cynnydd o gymharu â 2020 a 2018, sef 19 y cant a 30 y cant yn y drefn honno.


**Ffigur 5.2: Dangosyddion datblygu busnes yn ystod y 12 mis diwethaf**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=249)

At ei gilydd, roedd busnesau'n optimistaidd ynghylch eu rhagolygon twf dros y tair blynedd nesaf, gyda 69 y cant o fusnesau'n disgwyl i'w trosiant gynyddu a 63 y cant ohonynt yn disgwyl i'w helw gynyddu.

**Ffigur 5.3: Wrth feddwl am y 2-3 blynedd nesaf, ydych chi'n credu y bydd eich trosiant ac elw yn cynyddu, yn gostwng neu'n aros fel y mae?**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=236)

## 5.2 Patrymau masnachu

Er i ymarferion mapio blaenorol ganfod bod y sector yng Nghymru wedi dod yn fwy aeddfed a bod ganddo fwy o ffocws masnachol, roedd tarfu sylweddol ar amodau masnachu i lawer o fusnesau yn ystod y pandemig a nifer fawr o grantiau ar gael i fusnesau, gan gynnwys y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes a Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector ymhlith nifer o rai eraill (gweler Atodiad 1 am restr lawn). Fodd bynnag, y ffocws masnachol hwn sy'n gwahaniaethu rhwng busnesau cymdeithasol a sefydliadau eraill yn y trydydd sector.

Mae'n ymddangos bod y busnesau sy'n crybwyll eu bod yn defnyddio grantiau llywodraeth leol wedi cynyddu ychydig bach yn unig rhwng 2020 a 2022 (o 49 y cant i 51 y cant). Mae cyfran yr incwm a gynhyrchwyd trwy weithgarwch masnachu h.y. incwm a gynhyrchwyd gan y nwyddau neu'r gwasanaethau maent yn eu cynnig, yn hytrach na chael grantiau neu roddion, wedi amrywio hefyd, gyda masnachu â'r cyhoedd yn gostwng o 64 y cant yn 2020 i 53 y cant yn 2022. Fodd bynnag, ymddengys bod masnachu â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi cynyddu i lefelau sy'n agos at 2018 ar ôl gostyngiadau yn 2020.

### Ffigur 5.4: Beth yw prif ffynonellau incwm eich sefydliad?





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022

Trwy ddefnyddio'r sampl gyfatebol o ymatebwyr y panel a roddodd ddata ar incwm yn 2018, 2020 a 2022, ymddengys y bu mwy o ddibyniaeth ar weithgarwch nad yw'n fasnachol. Er y bu cynnydd yn nifer y busnesau y mae dros 50 y cant o'u hincwm yn cael ei gynhyrchu o weithgarwch masnachol er 2020 (o 62 y cant i 66 y cant), nid yw hyn wedi dychwelyd i lefelau 2018 (75 y cant).




**Ffigur 5.5: Tua faint o gyfanswm incwm eich sefydliad sy'n cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau masnachu? (Sampl y Panel)**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2018, 2020 a 2022

Am y tro cyntaf, gofynnwyd i'r busnesau hynny a oedd yn dweud eu bod wedi manteisio ar grant neu gyllid ad-daladwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf beth roeddent yn defnyddio'r cyllid neu'r cyfalaf hwn i'w ariannu. Roedd mwyafrif y busnesau'n defnyddio'r cyfalaf hwn i gefnogi twf busnes (58 y cant neu 85/146 o fusnesau) a 48 y cant (70 o fusnesau) ar gyfer cyfalaf datblygu. Fodd bynnag, mae'n peri pryder bod bron i hanner y busnesau (49 y cant neu 71 o fusnesau) wedi crybwyll y byddai'r cyllid yn cefnogi eu rhagolygon goroesi. Ymhlith yr ymatebion 'arall', nododd dau fusnes y byddai'n talu costau staffio a byddai pum busnes yn ei ddefnyddio i ariannu prosiect penodol.

**Ffigur 5.6: Ar gyfer beth oeddech chi'n defnyddio'r cyllid neu'r cyfalaf hwn?**





**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=146)

## 5.3 Galluoedd busnesau

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg sgorio galluoedd eu busnesau eu hunain ar draws ystod o arferion busnes gwahanol ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn wael iawn a 5 yn gryf iawn). Mae'r sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob un o'r meysydd hyn i'w gweld yn y siart isod, ac mae'n datgelu bod galluoedd hunangofnodedig busnesau yn gyffredinol gyson â'r rheiny mewn blynyddoedd blaenorol.

**Ffigur 5.7: Galluoedd hunangofnodedig mewn sgiliau busnes perthnasol (Sgôr gyfartalog lle mae 5 yn gryf iawn ac 1 yn wael iawn) 2018, 2020 a 2022**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=249)


Erbyn hyn, gellir cymharu'r opsiynau ymateb newydd a gynhwyswyd yn 2020 yn ymwneud â marchnata ar-lein a gwerthu nwyddau/gwasanaethau ar-lein â chanlyniadau 2022, sy'n awgrymu y bu gostyngiad mewn gallu hunangofnodedig yn y sgiliau digidol hyn. Fodd bynnag, dylid nodi y dywedodd 34 y cant o'r ymatebwyr nad oedd gwerthu ar-lein yn berthnasol i'w busnes.

Ymddengys hefyd fod gostyngiad mewn galluoedd busnes o ran manteisio ar gyllid ad daladwy allanol; fodd bynnag, dywedodd 65 y cant o fusnesau nad oedd y sgil hon yn berthnasol i'w busnes.

Fel roedd ymatebion blaenorol yn awgrymu, mae lefel uchel o hyder (lle y crybwyllodd busnes 5 allan o 5) mewn sgiliau strategol fel rheoli cyllid (37 y cant), sgiliau pobl a rheoli (29 y cant) a datblygu a rhoi strategaethau ar waith (29 y cant). Fodd bynnag, dim ond tri y cant (7/249 o fusnesau) oedd yn sgorio eu hunain yn gryf iawn o ran manteisio ar gyllid ad daladwy allanol, a saith y cant (18/249 o fusnesau) o ran ennill contractau neu fanteisio ar gyfleoedd caffael.

Yn olaf, mae'r data'n dangos mai marchnata yw un o'r meysydd lleiaf hyfedr o hyd, tra roedd busnesau hyd yn oed yn llai hyfedr mewn marchnata a gwerthu ar-lein. Wrth i'r farchnad ddigidol ddod yn fwyfwy pwysig yn yr economi a'r pandemig sbarduno tueddiadau defnyddwyr i'r cyfeiriad hwnnw, mae diffyg gwybodaeth yn y maes hwn yn cynrychioli bwlch amlwg arall o ran sgiliau.

**Ffigur 5.8: Sgôr gallu gyfartalog (lle mae 5 yn gryf iawn) a'r ganran a ymatebodd naill ai 'cryf' neu 'cryf iawn'**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=248)



Adran 06
# Heriau, anghenion cymorth a llwybrau twf

06




# 06 Heriau, anghenion cymorth a llwybrau twf


Mae'r adran hon yn archwilio'r prif rwystrau a nodwyd gan fusnesau sy'n atal twf a'u gallu i gyflawni eu hamcanion cymdeithasol. Ar ben hynny, mae'n trafod y bylchau sgiliau a nodwyd o fewn y sector a'r cymorth sydd ei angen er mwyn gwneud hynny mynd i'r afael â nhw.

## 6.1 Rhwystrau rhag tyfu

Yn yr un modd â'r ymarfer mapio blaenorol, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis eu pedwar prif rwystr rhag cynaliadwyedd neu dwf. Dim ond un opsiwn ymateb a ychwanegwyd i adlewyrchu'r cyd-destun economaidd cyfnewidiol, a chrybwyllwyd 'costau ynni' gan bron i draean o'r busnesau yn 2022 (31 y cant) fel un o'u prif rwystrau rhag tyfu. Yn yr un modd, crybwyllwyd chwyddiant uchel gan bron i hanner yr ymatebwyr (48 y cant), o gymharu ag 19 y cant yn 2020 a 23 y cant yn 2018. Roedd llif arian yn rhwystr i chwarter y busnesau (25 y cant), a oedd wedi mwy na dyblu o 10 y cant yn 2020. Mae hyn yn creu darlun pryderus o gyflwr y sector.

Fodd bynnag, y rhwystr mwyaf i fusnesau oedd pwysau amser/diffyg gallu staff, a nodwyd gan 52 y cant o'r busnesau cymdeithasol a arolygwyd. Mae'n ddiddorol nodi bod cael cyllid grant wedi cynyddu i 51 y cant hefyd, ar ôl disgyn i 31 y cant yn unig yn 2020. Mae hyn yn dilyn patrwm a welwyd mewn mannau eraill yn ymwneud ag effaith y pandemig, lle'r oedd nifer o grantiau gwydnwch neu adfer i fusnesau yn 2020 nad oeddent ar gael mwyach yn 2022.


**Ffigur 6.1: Beth yw'r pedwar rhwystr mwyaf sylweddol rhag cynaliadwyedd a/neu dwf eich sefydliad ar hyn o bryd?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2018, 2020 a 2022

Gofynnwyd cwestiwn dilynol i fusnesau a awgrymodd fod manteisio ar gyllid yn rhwystr iddynt i ddeall natur yr heriau hyn. Mae'r data'n awgrymu mai un o sbardunau allweddol y pryder hwn oedd diffyg amser i allu gwneud cais am gyllid (34 y cant neu 40/118 o fusnesau), sy'n adlewyrchu'r rhwystrau ehangach y mae busnesau'n eu hwynebu yn ymwneud â gallu sefydliadol a gallu staff. Nid oedd gan 32 y cant arall o fusnesau yr arbenigedd i wneud cais am gyllid, sy'n awgrymu bod angen sgiliau yn y sector.

**Ffigur 6.2: Pam ydych chi'n datgan bod manteisio ar gyllid yn her i'ch busnes?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=118)

Roedd nifer o fusnesau a ymatebodd 'arall', lle y crybwyllodd 11 o fusnesau (9 y cant) fod mwy o gystadleuaeth am gyllid grant a dywedodd 3 o fusnesau bod cyllid cyfyngedig ar gael. Roedd y rhai a soniodd am opsiynau cyllid heblaw grantiau yn awgrymu nad oedd eu moeseg yn cyd-fynd â banciau neu fenthycwyr traddodiadol neu wedi canfod bod banciau'r rhy ofalus o ran benthyca i fusnes nad yw'n cael ei sbarduno gan elw.


> Mae'r byd cyllid yn hoffi busnesau sy'n cael eu sbarduno gan elw ac, yn gyffredinol, nid oes arno eisiau mentro â busnesau cymdeithasol ac mae'r cyfraddau llog yn rhy uchel."

> Nid yw banciau'r stryd fawr yn cydweddu'n dda â'n hanghenion busnes. Byddai'n well gennym gael rhywbeth mwy moesegol."

## 6.2 Bylchau o ran sgiliau ac anghenion cymorth

Roedd busnesau'n gallu cynnig ymatebion testun rhydd yn ymwneud â'r cymorth roedd ei angen arnynt i fynd i'r afael â'u rhwystrau rhag tyfu. Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin yn ymwneud â marchnata (16 y cant neu 39/237 o fusnesau). Er i 9 y cant grybwyll bod angen cyllid arnynt i oresgyn rhwystrau, dywedodd 15 y cant ohonynt fod eisiau hyfforddiant neu gymorth arnynt i allu manteisio ar gyllid neu ariannu eu hunain. Cyfeiriodd nifer sylweddol o'r ymatebion at gymorth yn ymwneud â staff neu hyfforddiant, ac roedd angen cymorth ar 14 y cant o'r busnesau â recriwtio staff neu wirfoddolwyr, hyfforddiant ar 13 y cant o fusnesau ar gyfer eu staff presennol ac roedd 2 fusnes arall yn cael trafferth recriwtio prentisiaid.

**Ffigur 6.3: Pa gymorth fyddai orau o ran mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag cynaliadwyedd neu dwf a nodwyd gennych?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=237)




Holwyd busnesau hefyd am y model cyllid cyfunol, a ddefnyddiwyd ar gyfer cronfeydd megis Cronfa Cadernid y Trydydd Sector a'r Gronfa Twf Busnesau Cymdeithasol (h.y. cymysgedd o grantiau a benthyciadau) a gall ddod yn fwy cyffredin yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (55 y cant) yn ymwybodol o'r cronfeydd a, lle maent yn ymwybodol, nododd y rhan fwyaf (55 y cant) fod ganddynt ddiddordeb yn y model. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai dim ond pedwar y cant a fanteisiodd ar gyllid cyfunol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gweler Ffigur 5.15), sy'n awgrymu bod lle da i gynyddu'r math hwn o gynnig fel dewis amgen i fusnesau sy'n awyddus i gael cyllid grant.

> Byddai cymorth ag effeithlonrwydd ariannu yn yr agwedd weithredol ar y busnes yn ddefnyddiol, yn ogystal â mentora a rhwydweithio i helpu â chysylltedd."

> Rydyn ni'n defnyddio Facebook cryn dipyn, ond dwi'n credu y gallai ein hôl troed digidol fod yn well. Rydyn ni gyd yn wirfoddolwyr hŷn a allai elwa ar gymorth neu fentora mwy arbenigol."

> Dylai mis Medi fod yr adeg brysuraf o'r flwyddyn i ni gan fod pobl ifanc wedi gadael yr ysgol a symud i fusnesau a dechrau prentisiaethau, ond mae'n rhyfedd eleni gan nid yw'r niferoedd yno."


> Byddai cymorth i ddod o hyd i gyfarwyddwyr mwy medrus i ymuno â ni a gweithio i ni yn ddefnyddiol yn hytrach na mentora, gan ein bod yn brin o amser."

> Mentora neu gymorth o ran rhwydweithio ardaloedd yr awdurdodau lleol. Sut maen nhw'n cydymffurfio â'r gwasanaethau cymdeithasol a llesiant."

## 6.3 Llwybrau twf

Dywedodd llawer o fusnesau eu bod yn bwriadu cyflawni'r cynnydd hwn trwy weithgareddau tyfu busnes fel denu cwsmeriaid neu gleientiaid newydd (81 y cant neu 133/164) neu ddatblygu cynhyrchion neu wasanaethau newydd (60 y cant neu 99/164). Fodd bynnag, dylid nodi y byddai 37 y cant o'r ymatebwyr (60.164) yn gwneud hyn trwy leihau costau.

**Ffigur 6.4: Sut mae'ch sefydliad yn bwriadu cyflawni'r cynnydd hwn?**




**Ffynhonnell:** Arolwg Wavehill 2022 (n=164)

Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos rhai o'r ymatebion a roddwyd i'r cwestiwn testun agored.

> Rheolaeth ariannol well a chynyddu'r rhenti. Buddsoddiadau tymor hir yn dwyn ffrwyth."

> Adfer y busnes a gollwyd yn ystod y pandemig – rydym yn treialu oriau agor estynedig ac ymgyrch farchnata – rydym wedi cyflogi cwmni marchnata i wneud rhywfaint o farchnata i ni."




Adran 07

# Crynodeb o'r canfyddiadau

07

»

## 7.1 Cyflwr y sector

Canfu Cyfrifiad Mapio Busnesau Cymdeithasol 2020 sector a oedd yn adfer ar ôl pandemig Covid-19, lle yr ymddengys bod effaith y pandemig wedi dod i'r amlwg mewn twf a oedd yn arafu yn hytrach nag yn dirywio. Yn dilyn y dymchweliad economaidd a achoswyd gan y pandemig, ymddengys bod y stoc fusnes wedi ehangu trwy weithgarwch entrepreneuraidd parhaus, wedi'i gynorthwyo gan gymorth ychwanegol a ariannwyd gan Ewrop a ddarparwyd gan Cwmpas drwy raglen Busnes Cymdeithasol Cymru.

Fodd bynnag, mae arwyddion o fregusrwydd yn y sector ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai fod effeithiau hirbarhaol ar ôl y pandemig, ynghyd ag amgylchedd masnachu mwyfwy cystadleuol, a allai fod wedi'i sbarduno gan ostyngiad yn y cyllid sydd ar gael. Mae'n ymddangos bod y dirwedd gyfnewidiol o ran cyllid (a cholli cyllid yr Undeb Ewropeaidd cyn bo hir) a diwedd y cyllid grant a gynigiwyd yn ystod y pandemig yn effeithio ar fusnesau cymdeithasol, gyda chyfran gynyddol ohonynt yn nodi materion yn ymwneud â llif arian parod. Efallai bod yr heriau hyn yn fwy difrifol o ystyried y pwysau diweddar o ran chwyddiant yn gysylltiedig â chostau ynni ac eitemau eraill o wariant allweddol. Mae'n bwysig nodi hefyd fod gosod cyfyngiadau yn ystod y pandemig wedi cael effaith glir ac anghymesur ar y sector yn ei gyfanrwydd. Mae gwahaniaethau o ran cymorth grant, galw masnachol a'r gallu i weithredu yn golygu, ar lefel sefydliadol, bod perfformiad, maint a throsiant busnesau wedi newid yn sylweddol mewn ffyrdd gwahanol rhwng 2020 a 2022.

Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ar gyfer twf busnesau yn optimistaidd yn y tymor hir, ac mae llawer o fusnesau'n gadarnhaol am eu trosiant ac elw yn y dyfodol. Mae dangosyddion yn ymwneud â datblygu busnes yn awgrymu bod busnesau'n ceisio ehangu ac amrywiaethu, gan grybwyll amrywiaeth o ddangosyddion datblygu busnes yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae llawer o ddangosyddion wedi adlamu i fynd yn gyffredinol gyson â ffigurau 2018, ar ôl gostyngiad yn 2020, a all awgrymu bod busnesau mewn cyfnod o atgyfnerthu neu oroesi yn ystod y pandemig, ond eu bod bellach yn ceisio tyfu unwaith eto.

## 7.2 Perfformiad masnachu a rhwystrau rhag tyfu

Mae dadansoddiad o oedran busnesau'n awgrymu y bu cynnydd mewn busnesau newydd ers yr arolwg diwethaf yn 2020, gyda gweithgarwch cryf o ran busnesau newydd yn Wrecsam, Conwy, Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf yn benodol.

Ymddengys mai gallu staff yw'r rhwystr mwyaf rhag twf a wynebwyd gan fusnesau, a allai fod wedi'i sbarduno gan ystod o ffactorau, gan gynnwys amrywiadau cyffredinol yn y farchnad lafur a phrinder staff medrus yn gysylltiedig â hynny, neu gynnydd mewn masnach neu'r galw am wasanaethau. Ymddengys hefyd fod gan fusnesau lai o wirfoddolwyr, ar gyfartaledd, nag yn 2020.

Mae data ar batrymau masnachu yn awgrymu bod lefel y ffocws masnachol yn 2022 wedi disgyn, a all fod yn gysylltiedig ag argaeledd cyllid grant yn ystod y pandemig. Mae'r gallu i fanteisio ar gyllid yn rhwystr tybiedig rhag twf a chynaliadwyedd o hyd. Ychydig iawn o fusnesau sydd wedi manteisio ar gyllid ad-daladwy neu gymysg, a sgoriwyd y cyntaf fel maes lleiaf hyfedr busnesau, gyda'r sector yn nodi bod ganddo lai o sgiliau yn y maes hwn nag yn 2020. Dyma'r prif angen cymorth a grybwyllwyd hefyd.



Mae cymhwysedd digidol yn ymwneud â marchnata ar-lein a gwerthu nwyddau ar-lein yn fwlch sgiliau i rai busnesau o hyd. Amlygodd ymatebwyr fod angen sgiliau marchnata hefyd, boed hynny trwy hyfforddiant, mentora neu gymorth ymgynghoriaeth wedi'i deilwra.

## 7.3 Cyflawni newid cymdeithasol

Mae'r ymchwil yn awgrymu bod gan fusnesau cymdeithasol rôl arbennig o bwysig i'w chwarae mewn ardaloedd mwy difreintiedig, yn ôl pob tebyg, ac mae Cymoedd De Cymru yn gadarnle ar gyfer gweithgarwch busnesau cymdeithasol o hyd.

Bu cynnydd yn y ffocws ar effeithiau cymdeithasol i fusnesau a bu nifer gyson o fusnesau'n mesur yr effaith hon. Gallai hyn fod oherwydd y cydnabuwyd yr angen i gyfleu gwerth cymdeithasol i ddarpar gyllidwyr, yn enwedig mewn tirwedd gyllido fwyfwy cystadleuol.

Yn benodol, ymddengys bod gwella iechyd a lles yn sbardun cymdeithasol allweddol i dri chwarter o'r busnesau. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith mai iechyd oedd yr ail sector gweithredol mwyaf, yn ogystal â'r gydnabyddiaeth gynyddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Bu gwella cymuned benodol yn bwysig i fusnesau cymdeithasol yn gyson, sy'n dangos rôl busnesau cymdeithasol mewn adfywio cymunedol â ffocws lleol.

Mae busnesau cymdeithasol yn gyflogwyr da, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cynnig Cyflog Byw i'w holl staff ac yn cyflogi pobl sydd ymhellach o'r farchnad lafur. Mae busnesau cymdeithasol yn parhau i fod yn sbardun allweddol i gyflogaeth leol ac ni fu effaith dadleoleiddio ar ôl symud i weithio o bell yn ystod y pandemig. Mae'r data'n awgrymu y gallai fod nifer fach ond cynyddol o fusnesau sydd dan berchenogaeth gweithwyr. Mae cydbwysedd cadarnhaol iawn o ran rhywedd yn arweinyddiaeth y busnesau hyn, er bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau wedi'u tangynrychioli.




# Atodiad 1:
# **Grantiau a gynigiwyd yn ystod y pandemig**

08

# 8. Grantiau a gynigiwyd yn ystod y pandemig

**Mae prif agweddau'r cymorth hwn fel a ganlyn:**

- **Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ('Y Cynllun Ffyrlo')** – grant sy'n cwmpasu 80 y cant o gostau cyflogau misol gweithwyr lle na all busnesau gadw eu gweithlu gan fod COVID-19 wedi effeithio ar eu gweithrediadau.

- **Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws** – roedd busnesau bach a chanolig yn gallu gwneud cais am fenthyciad, gorddrafft, cyllid anfonebu a chyllid asedau o hyd at £5 miliwn am hyd at chwe blynedd, gyda'r llywodraeth yn rhoi gwarant o 80 y cant i fenthycwyr ar bob benthyciad.

- **Benthyciad Adfer y Coronafeirws** – rhwng £2,000 a £50,000, gyda'r llywodraeth yn gwarantu 100 y cant o'r benthyciad heb unrhyw ffioedd, llog nac ad-daliadau am y 12 mis cyntaf.
- Cronfa Cadernid Economaidd – tair rownd o fenthyciadau a chyllid grant i gefnogi busnesau yr oedd cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r pandemig wedi effeithio arnynt ac nad oeddent yn gallu gweithredu.

- **Y Gronfa Adferiad Diwylliannol** – darparodd gyllid i gefnogi theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, sinemâu annibynnol, a gweithwyr llawrydd.

- **Cronfa Cadernid y Trydydd Sector** – rhoddodd gymorth ariannol uniongyrchol, gan gynnwys cymysgedd o 75 y cant o gyllid grant a 25 y cant o fenthyciad di-log i sefydliadau'r trydydd sector yr oedd angen cymorth arnynt i ymdopi â'r argyfwng.

- **Rhyddhad Ardrethi Busnes** – gan gynnwys y cynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch, y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach, a'r cynllun rhyddhad ardrethi sefydliadau nid-er-elw.

- **Gohirio TAW** – roedd gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW, ac a oedd â thaliad TAW yn ddyledus rhwng 20 Mawrth a 30 Mehefin 2020, yr opsiwn i ohirio'r taliad tan 31 Mawrth 2021.

- **Ad-daliad Tâl Salwch Statudol** – roedd cyflogwyr yn gallu adennill Tâl Salwch Statudol a dalwyd ar gyfer absenoldeb salwch oherwydd COVID-19.

- **Amser i Dalu** – hepgor cosbau i fusnesau nad oeddent yn gallu talu eu treth mewn pryd oherwydd y pandemig.



# Atodiad 2: **Diffiniad o Fusnes a Gynorthwyir**

09

## 9. Diffiniad o Fusnes a Gynorthwyir

**Mae busnesau a gynorthwyir yn sefydliadau sy'n bodloni'r tri amod canlynol:**

**a)** bod o leiaf 30% o'u gweithlu cyflogedig yn cynnwys pobl anabl neu sydd ag anfantais yn y farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys yr wyth categori canlynol ar gyfer cyflogai sydd:

i. ag anabledd;

ii. neu nad yw wedi bod mewn cyflogaeth reolaidd â thâl yn ystod y 6 mis blaenorol;

iii. rhwng 15 a 24 oed;

iv. neu nad yw wedi ennill cymhwyster addysgol neu alwedigaethol uwchradd uwch fel cymhwyster Safon Uwch/NVQ3;

v. neu nad yw wedi cael cyflogaeth reolaidd â thâl cyn pen dwy flynedd ar ôl cwblhau addysg amser llawn;

vi. neu sydd dros 50 oed;

vii. neu sy'n byw fel oedolyn sengl ag un neu fwy o ddibynyddion;

viii. neu sy'n gweithio mewn sector neu broffesiwn lle mae'r anghydbwysedd o ran rhywedd o leiaf 25% yn uwch na'r cyfartaledd (e.e. mewn sectorau fel gweithgynhyrchu ac adeiladu; neu alwedigaethau fel gofal, gweinyddol/ysgrifenyddol, prosesu, gweithredwyr offer a pheiriannau);

ix. neu sy'n aelod o leiafrif ethnig sydd angen datblygu ei broffil/phroffil ieithyddol, hyfforddiant galwedigaethol neu brofiad gwaith.

**b)** gall y busnes ddangos mai ei brif nod yw integreiddio pobl anabl neu ddifreintiedig yn gymdeithasol a phroffesiynol

**c)** bod integreiddio pobl anabl neu ddifreintiedig yn gymdeithasol a phroffesiynol wedi'i amlinellu yn ei ddogfennau cyfansoddiadol (e.e. Memorandwm, amcanion elusennol, cytundeb aelodaeth).

**Cyhoeddwyd gan Busnes Cymdeithasol Cymru**
Mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru ac yn cael ei gyflwyno gan Cwmpas.

**Ffôn:** 0300 111 5050
**E-bost:** SBWEnquiries@cwmpas.coop
**Twitter:** @SocialBizWales

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatiau eraill, fel print bras neu Braille, ar gael ar gais. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith.